# Y DINESYDD

Papur Pobl Caerdydd a'r Fro

Rhagfyr 2020 / Ionawr 2021

Rhif 454 £1


**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA**




Llun: Tom Dymond Thames/Syco


Atgofion am Teleri Bevan t.7

Adolygiadau am Lyfrau t. 8-10

Seiclo yng Nghaerdydd t.11

Corau ar Zoom t. 2 a 24

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Clive Rowlands**

***Golygyddion Chwefror***
***Eirian a Gwilym Dafydd***

Cyfraniadau erbyn 27 Ionawr i
eirianagwilym@gmail.com
4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd, CF14 7EJ
029 20657108

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol
gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## ADDYSGU a PHERFFORMIO: Lloyd Macey

Ers yn ifanc, mae fy angerdd tuag at addysgu wedi dod law yn llaw â pherfformio. Yn 2017, graddiais i gyda gradd dosbarth cyntaf yn y cwrs BA Perfformio, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, a hwyrach yn y flwyddyn, roeddwn i'n diddanu miliynau o wylwyr teledu dros y byd fel cystadleuydd ar y rhaglen deledu 'X Factor'. Cyrhaeddais i'r rownd gynderfynol, ac yna es i ymlaen i gefnogi Little Mix ar eu taith, 'The Glory Days', gan berfformio'n fyw i dros 150,000 mil o bobl dros Brydain ac Iwerddon. Ers hynny, yr wyf wedi ysgrifennu â rhyddhau sawl sengl, trwy gyfrwng y Gymraeg â'r Saesneg. Yr wyf ar hyn o bryd, yn ogystal ag astudio, yn paratoi i fod yn westai ar y rhaglen radio, Swyn Y Sul gyda'r BBC, fydd yn cael ei darlledu yn y flwyddyn newydd.

Y llynedd, fel mentor ar y rhaglen Chwilio am Seren – Junior Eurovision S4C, roeddwn i'n gweithio'n agos iawn gyda phlant ifanc. Treuliais i'r flwyddyn yn gweithio ar eu sgiliau perfformio, yn ogystal â datblygu eu hyder, a hynny i gyd yn iaith y nefoedd. Mi wnaeth y profiad hwn, heb os nac oni bai, ailgynnau fy angerdd tuag at addysgu. Fel person o deulu di-gymraeg, mae'n deimlad arbennig i fod yn defnyddio iaith, sy'n rhoi ymdeimlad o hunaniaeth i mi, ym mhob agwedd o fy mywyd. Mae'r ffaith fy mod i bellach yn rhugl yn y Gymraeg wedi bod yn gymorth mawr i mi ddeall hanes, llenyddiaeth a diwylliant Cymru, ac yr wyf yn edrych ymlaen i hyfforddi fel athro Cymraeg a throsglwyddo hynny i'r genhedlaeth nesaf. Yr wyf yn ystyried addysgu a bod yn athro yn alwedigaeth yn hytrach na gyrfa ac mae'n deimlad cyffrous iawn i feddwl, trwy astudio'r cwrs TAR Cymraeg Uwchradd ym Mhrifysgol MET Caerdydd, fy mod i un cam yn nes at wireddu breuddwyd.

Cor Meibion Taf

## Y Cofid yn Creu Fideos

cormeibiontaf.cymru

Yn dilyn llwyddiant comisiwn i greu fideo 'Dawel Nos' yng Nghastell Coch ar gyfer ymgyrch marchnata CADW beth amser yn ôl, manteisiodd Côr Meibion Taf ar gyfnod y Clo i greu dau fideo rhithiol Nadoligaidd eu naws sef 'O Tannenbaum', Parker a Shaw gyda'r unawdydd gwâdd, Rhodri Prys Jones a 'Seren Nadolig', Mansel Thomas. Mae'r côr yn gwerthfawrogi gwaith eu cyfarwyddwr cerdd, Steffan Jones, eu cyfeilydd, Lowri Guy yn ogystal â'u swyddog technegol, Irfon Bennett wrth greu y danteithion cerddorol hyn mewn cyfnod mor anodd.



# Colofn G.R.



*"Trist odd clywed am ddiwedd Tŷ'r Cymry."*

Erbyn i'r rhifyn nesa o'r *Dinesydd* ymddangos bydd Prydain wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a bydd Joe Biden wedi ei sefydlu'n Arlywydd nesa yr Unol Daleithiau. Os buodd 2020 yn flwyddyn gynhyrfus beth am 2021? Bydd y firws yn dal o gwmpas a bydd effeithiau gadael yr Undeb Ewropeaidd yn dechrau amlygu eu hunain ac ar ben hynny bydd ymgyrchu caled wrth ddechrau paratoi ar gyfer Etholiad ym mis Mai i anfon pobl i'n Senedd ym Mae Caerdydd.

Mae Joe Biden o dras Gwyddelig a chafodd ei fagu yn Scranton ym Mhennsylvania lle mae llawer o bobl o dras Cymreig yn byw. Mae tad Hilary Clinton wedi ei gladdu yn y fynwent Gymreig yn Scranton ac enw ardal yn Scranton ydy Hyde Park ac oddi yno ymfudodd y teulu Davies i ffarmio yn y Wladfa ym Mhatagonia gan enwi'r ffarm yn Hyde Park er cof am eu hamser yn byw yn Scranton. Buodd Edward a Tommy Davies, meibion y teulu yn ffermio yno am flynyddoedd lawer. Dau hen lanc on nhw ac yn gymeriadau hynaws ac odd wastad croeso twymgalon i unrhyw un odd yn ymweld â nhw yn eu tŷ to mwd ger y Gaiman yn Nyffryn Camwy.

Tommy odd yr un mwyaf ffraeth ac yntau pan odd o tua 90 oed yn cael ei gyfweld gan griw ffilmio Sbaeneg ac un o'r cwestiynau a ofynnwyd iddo odd pam na wnaeth e erioed briodi ac yntau yn ateb ar ei ben "*no tiempo, no tiempo*" (dim amser, dim amser)!

Mae Alun Wyn Jones, Capten tîm rygbi Cymru, wedi bod yn y newyddion yn ddiweddar wrth iddo chwarae ei 149 ymddangosiad dros ei wlad. Enillodd ei gap cyntaf mewn gêm yn erbyn y Pumas yn yr Ariannin ym Mhorth Madrin yn y Wladfa nôl ym Mehefin 2006. Yn anffodus collodd Cymru'r gêm honno a'r ail gêm yn erbyn y Pumas yn Buenos Aires!

Pan laniodd tîm Cymru ym Maes Awyr Trelew yn y Wladfa cyn y gêm ym Mhorth Madryn cawson nhw groeso brwd gan ddegau o Wladfarwyr yn chwifio'r Ddraig Goch ac yn canu 'Sosban Fach' a 'Calon Lân'. Odd un o'r tîm odd yn ddi-Gymraeg yn argyhoeddedig fod pawb yn Nhrelew (poblogaeth 90,000+) yn gallu siarad Cymraeg ar ôl clywed pawb yn y maes awyr yn siarad yr iaith! – O! na fyddai hynny'n wir ynte!

Trist odd clywed am ddiwedd Tŷ'r Cymry yn ardal y Rhath ar ôl bod yn ganolfan i weithgareddau lu am flynyddoedd lawer. Rhoddwyd y Tŷ yn rhodd i Gymry Caerdydd gan ffermwr gwladgarol ym Mro Morgannwg a hynny nôl yn 1936 a daeth Cymdeithas Tŷ'r Cymru i fodolaeth gan gynnal eu cyfarfodydd bob nos Sul a nos Fawrth. Denwyd ugeiniau o Gymry ifanc i'r unig le seciwlar ar y pryd ar eu cyfer yn y ddinas. Buodd yn fiwro priodasol i lawer o'r aelodau dros y blynyddoedd!

Bu'r Tŷ yn lloches i bob math o gyfarfodydd a gweithgareddau ac yn eu plith odd yr ysgol fore Sadwrn a arweiniodd i sefydlu Ysgol Bryntaf sef yr Ysgol Gymraeg gyntaf yn y ddinas nôl yn 1949. Yn y Tŷ dechreuodd Aelwyd yr Urdd ac Uwch Adran yr Urdd, a defnyddiwyd y Tŷ fel swyddfa i UCAC a Chymdeithas yr Iaith. Cynhaliwyd llu o bwyllgorau yno a dosbarthiadau Cymraeg a bu'n hafan dros dro i'r Eglwys Efengylaidd Gymraeg. Yma hefyd y cynhaliwyd Cylch Meithrin Cymraeg llewyrchus. Bellach mae'r Tŷ yn wag ond yn gadael llawer o atgofion o'r hyn a gyflanwyd dros yr iaith yn y ddinas yn ystod ei fodolaeth. Gobeithio y daw ryw hanesydd i 'sgrifennu hanes anrhydeddus y Tŷ a fu'n gymaint o hwb i'r Gymraeg yn ein prifddinas.

Mae'n ddyletswydd arna i, i ymddiheuro i Hywel Price am ei alw yn Aled Price yn y golofn hon ym mis Hydref o'r *Dinesydd* wrth i mi ddymuno ymddeoliad hapus iddo ar ddiwedd ei gyfnod fel Pennaeth llwyddiannus Ysgol Gyfun Bro Morgannwg. Ond yr un ydy fy nymuniad er y camgymeriad yn yr enw!

Rwan, hoffwn i ddymuno pob hapusrwydd i ddarllenwyr y golofn hon wrth i ni agosau at y Nadolig gan obeithio er gwaethaf y cyfyngiadau arnom y bydd yn bosibl i ni fwynhau'r Ŵyl a byw mewn gobaith y daw ychydig o normalrwydd nôl i'n bywydau yn 2021!

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL VINTAGE**, 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**DINAS COMPUTERS**, Heol y Crwys
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**NISA**, Heol Caerdydd,, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, 37 Arcêd y Castell
**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn Natur

*"Heriau natur ym Mharc y Rhath"*



## Gethin Jenkins-Jones

Mae Llyn Parc y Rhath yn un o'r lleoliadau hynny sy'n fwrlwm o fyd natur yng Nghaerdydd sy'n gyfarwydd bron iawn i bawb. Oherwydd hynny - yn wahanol i'r arfer - yn hytrach na sgwennu am bob dim y gallwch weld yno, dwi'n mynd i osod tair her i chi; efallai yr hoffech eu cyflawni y tro nesaf i chi fynd yno. Mae'r hwyaid, elyrch a'r gwyddau sy'n byw yno yn eu dwsinau yn cael eu mwynhau gan filoedd o ymwelwyr bob flwyddyn, ond mae 'na nifer o adar eraill â bywydau diddorol yno i'w gwerthfawrogi. Felly chwiliwch am yr adar canlynol yn y dyfodol!

**Bilidowcars**



Llun: John Harding

Wrth gerdded rownd Parc y Rhath mae nifer o'r adar sy'n denu eich sylw i'w gweld ger y llwybr neu ar ochr y dŵr. Mae'n hawdd felly i fethu â sylwi ar y Bilidowcars sy'n eistedd ym mrigau'r coed ar ynysoedd gogleddol y llyn. Fe fu fy nghariad yn cerdded rownd y parc yn wythnosol am flwyddyn heb sylwi arnynt o gwbl! Gallwch weld o leiaf hanner dwsin trwy gydol y dydd, ond wrth iddi fachlud mae dros hanner cant yn hedfan yno i glwydo ar ôl treulio'r dydd yn hela pysgod ar y môr ac ar afonydd a llynnoedd eraill. Mae unigolion neu grwpiau bach yn dychwelyd yn rheolaidd wrth iddi dywyllu, ac os oes gennych amser gallwch weld y nifer yn cynyddu yn araf tan bod dros 70 ohonynt yno yn y gwyll. Mae'n olygfa drawiadol i weld silwét yr holl adar yma yn erbyn golau'r machlud, a golygfa nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn sylwi arni.

**Siglen Lwyd**

Un o brif atyniadau'r llyn yw'r hwyaid, ond un aderyn dwi'n hoff o weld yno yw'r Siglen Lwyd. Mae maint cymharol fach yr aderyn hwn yn ei wneud yn hawdd i'w golli ond, os edrychwch yn ofalus, byddwch â siawns go lew i weld un neu ddau yn hela am bryfed wrth ymyl y dŵr. Maent i'w gweld yn rheolaidd ym man mwyaf deheuol y llyn lle mae'r dŵr yn allyrru i'r nant, ond gallwch hefyd eu gweld yn aml yn crwydro ar ochrau'r ynysoedd. Er mai 'llwyd' sydd yn yr enw, mae gweld lliwiau melyn llachar yr aderyn hwn yn rhoi llawer o fwynhad i mi, yn enwedig yn ystod diwrnodau llwm y gaeaf. Rhywbeth arall sy'n apelio am y rhywogaeth hon yw ei hymddygiad rhyfeddol. Mae'r Siglen Lwyd (a rhai eraill yn nheulu'r siglennod) yn symud eu cynffonnau lan a lawr yn ddiddiwedd, ac nid ydym yn sicr pam. Mae rhai wedi cynnig ambell i awgrym – er enghraifft bod y symudiad yn dychryn y pry cyfagos sy'n eu gwneud yn haws i'w gweld - ond nid oes cytuno ymysg gwyddonwyr. Tra'n ddryslyd, mae'n braf gwybod bod yna gyfrinachau ym myd natur o'n hamgylch eto i'w datrys.



Llun: Edmund Fellowes

**Gwylanod â modryw lliw**




Llun: Daniel Jenkins-Jones

Nid oes gan wylanod enw da ymysg rhan helaeth o'r cyhoedd, ac mae hyn yn biti mawr, oherwydd mae eu bywydau a'u hecoleg yn ddiddorol iawn. Gyda phobl yn taflu bara i'w bwydo bob dydd, mae'n rhesymol meddwl bod bywydau gwylanod Parc y Rhath yn braf iawn, a byddynt yn aros yn yr ardal drwy gydol eu hoes. Ond nid yw hyn yn hollol wir, a'r gwirionedd yw bod y mwyafrif yn treulio rhan fawr o'r flwyddyn yn Ewrop. Rydyn ni'n gwybod hyn oherwydd bod gan rai fodrwy liw efo côd wedi ei osod ar y coesau gan wyddonwyr â thrwydded benodol. Mae sawl Gwylan Gefnddu Leiaf a Gwylan y Penwaig – a fodrwywyd fel cywion yng Nghaerdydd yn treulio misoedd yr haf ar y llyn, ac yn treulio'r gaeaf yng ngwledydd deheuol Ewrop fel Sbaen, Portiwgal a Ffrainc. Yn ystod ein gaeaf ni, mae sawl Gwylan Benddu hefyd wedi cael eu gweld ym Mharc y Rhath â modrwyon a osodwyd arnynt yn Latfia, Gwlad Pwyl a Denmarc. Rhywbeth sy'n anhygoel yw bod llawer o'r gwylanod yn dychwelyd i'r llyn yn flynyddol. Mae'r ffaith eu bod yn medru gwneud hyn, yn teithio cannoedd o filltiroedd heb unrhyw gymorth gan *sat nav* yn anhygoel. Nid yw pob un yn teithio mor bell, fodd bynnag, ac mae un Wylan Gefnddu Leiaf â modrwy werdd â'r côd 'G + X' arni wedi tyfu i fod yn dipyn o seleb lleol gan ei bod wedi ei gweld yn y parc yn rheolaidd drwy'r flwyddyn ers iddi gael ei modrwy yn 2017. Os gwelwch chi wylan â modrwy ac yn medru darllen y côd arni, rhowch y manylion i'r wefan hon *cr-birding.org* ac mae siawns dda y bydd ganddi hanes diddorol. Pob lwc â'r heriau yma a beth am ddanfon eich lluniau o greaduriaid Parc y Rhath i'r *Dinesydd*?

## ADDYSG GYMRAEG – Canran Uwch nac erioed

Am resymau personol ond hefyd o ganlyniad i bla y coronafeirws nid oedd modd paratoi erthygl i roi rhifau terfynol y mynediad i'r sector cynradd fis Medi.

Hyd yn oed nawr fis Tachwedd dyw'r sir ddim yn gallu bod yn hollol sicr bod y rhif terfynol yn eu meddiant am fod rhai rhieni yn anfodlon dechrau plant ifainc yn yr ysgol yn sgil ofn am y feirws. 'Tua 766' yw'r ffigwr a roddir ond o feddwl bod hwn yn godiad dros 50 yn uwch na'r cyfanswm yn 2019 ac 20 yn uwch na'r uchafrif blaenorol o 747 yn 2016 testun llawenydd sy gyda ni, er nad yw'r ddarpariaeth ar draws y ddinas (840) yn llawn.

Cawsom amrywiaeth o ragolygon oddi wrth ystadegydd y sir yng nghyfarfod y Fforwm Addysg Gymraeg ar 12 Tachwedd. Sail y rhagolygon oedd y sicrwydd bod nifer y plant a enir yng Nghaerdydd wedi disgyn yn sylweddol o bron 5000 yn 2010 ac mae'r sir yn rhagweld cyfanswm y nifer yn ceisio dechrau addysg yn 2024 yn disgyn i 3429, rhyw gant yn llai na'r rhif isaf blaenorol yn 2002 sef 3569.

Problem ddyrys y sir yw ceisio rhagweld yr hyn fydd canran y cohort cyfan sy'n debyg o ddewis Addysg Gymraeg. Eleni y canran am Addysg Gymraeg oedd 18.5% tra yn 2000 roedd yr un canran yn is na 10%. A ddylai'r sir ragweld yr un canran eithriadol o 18.5 yn parhau i'r dyfodol? neu dderbyn canran 2016 (16%) fel sail fwy dibynadwy? neu dderbyn parhâd o 1%yn y twf yn fwy tebyg – 19.5 yn 2021, 20.5 y flwyddyn nesaf ac felly ymlaen i 22.5 yn 2024? Mae twf o 1% o'r canran cyfan yn meddwl y byddai angen bob blwyddyn i ychwanegu ffrwd at y ddarpariaeth sef 30 lle. Pe bai'r sir yn fodlon derbyn graddfa o dwf o 2% (fel a gafwyd am 10 mlynedd o 2000 ymlaen) byddai'r canran erbyn 2024 yn 26.5%.

Ar hyn o bryd mae'r sir yn darparu 28 ffrwd i addysg gynradd Gymraeg ac mae ganddynt ar y gweill gynlluniau ar gyfer agor 4 ffrwd arall i wneud cyfanswm o 32 sef 960 lle. Os bydd y canran Cymraeg yn codi i 22.5% erbyn 2024, ni fydd angen cymaint o le am na fydd nifer y plant ar gael i lenwi'r ystafelloedd dosbarth ychwanegol.

Mae cynlluniau ysgol newydd Plasdwr wedi mynd trwy'r Cabinet ond bydd oedi o flwyddyn yn adeiladu'r Ysgol yn sgil effeithiau'r feirws. Mae cynlluniau i ehangu Ysgol Mynyddbychan ar gael (ond yn gyfrinachol ar hyn o bryd) ac i fynd o flaen y Cabinet cyn y flwyddyn newydd. Er bod arian ar gael i ehangu ysgolion Nant Caerau a Penypil rwyn tybio y bydd oedi cyn symud ymlaen â'r cynlluniau yn wyneb y lleihad yn nifer y plant sy'n dod i'r byd a hefyd y ffaith nad yw'n debyg y bydd cynnydd yn y galw am Addysg Gymraeg llawer uwch nac un y cant pob blwyddyn. Roedd lle dros ben eleni yn y 2 ysgol.

*Michael Jones*

## RHAID ATAL GWASGARU MWD YMBELYDROL YM MAE CAERDYDD

Mae'n warthus bod cwmni EDF *(Électricité de France)* yn ceisio trwydded arall i wasgaru rhagor o fwd ymbelydrol o orsaf Bŵer Niwclear Hinkley ar ein harfordir o amgylch Caerdydd.

Er gwrthwynebiad cryf yn 2018 caniataodd ein Senedd i EDF wasgaru 82,000 metr ciwbig o waddod a niferoedd anhysbys o ronynnau ymbelydrol ar fanc tywod Tir Caerdydd, 2.5 milltir o Gaerdydd.

Ers 2018 mae Cynghrair Gwrth Niwclear Cymru a Geiger Bay yn dal i ymgyrchu yn erbyn caniatáu trwydded arall i EDF sydd nawr am wasgaru 600,000 metr ciwbig o fwd ymbelydrol ar ein harfordir. Mae aelodaeth y Gynghrair a Geiger Bay yn cynnwys Cian Ciarán o'r Super Furry Animals ac arbenigwyr cydnabyddedig, uchel eu parch fel Dr Richard Bramhall, yr Athro Keith Barnham, a'r Dr Tim Deere-Jones.

**Pam pryderu am y mwd?**

**Peryglu iechyd am genedlaethau i ddod.**

Nid yw unrhyw ymbelydredd yn ddiogel. Mae'r mwd yn cynnwys wraniwm a mwy na thebyg plwtoniwm. Gall micro–ronynnau ymbelydrol fel hyn gael eu hailyrru gan donnau'r môr a'u chwythu am filltiroedd i'r tir.

Mae'r pelydrau alffa sy'n cael eu rhyddhau gan wraniwm a phlwtoniwm yn egnïol iawn; gall hyd yn oed un alffa ryngweithio'n ddwys â phopeth yn ei lwybr yn enwedig os caiff ei anadlu, setlo yn y nodau lymph ac achosi lewcemia.

**Bywyd Morol**

Mae Aber Hafren yn bwysig yn rhyngwladol ar gyfer y Llysywen Ewropeaidd a restrir ar Restr Goch fyd-eang yr IUCN. Hefyd Mae Aber Hafren yn Ardal Cadwraeth Arbennig ac yn Warchodfa Forol i nifer o rywogaethau morol.

Bydd carthu'r mwd o Hinkley i'w drosglwyddo i'n harfordir yn gyfrifol am ladd hyd at 500,000 o bysgod bob dydd.

O'r diwedd mae EDF nawr yn bwriadu cynnal **Asesiad Effaith Amgylcheddol** o'i gais am drwydded. Mae Senedd Cymru hefyd wedi trafod hwn, ond mae pryder na fydd yr asesiad yn gynhwysfawr a thrylwyr.

**Rhaid i'r asesiad hwn fod yn drwyadl .**

Mae'r perygl i iechyd o ronnynau o'r ymbelydredd hyn yn llawer gwaeth na dybiwyd yn y gorffennol.
http://www.llrc.org/PreliminaryREPORTforCwCUK26062020.pdf

Dangoswch eich gwrthwynebiad i gais EDF i wasgaru mwd ymbelydrol yma yn ein Bae drwy gysylltu â'ch Aelod yn y Senedd, gyda Mark Drakeford a Lesley Griffiths , Gweinidog yr Amgylchedd.

*Gill Griffin*

# NEGES O HONG KONG

## Lowri Haf Cooke yn holi 'Beks' James

***Mae Rebekah 'Beks' James, sy'n wreiddiol o Lakeside a Llysfaen, yn byw gyda'i gŵr Rhodri a'i phlant yn Hong Kong. Mae Hari Tweli yn 13 oed a Joni Teifi yn 15, tra fod Ela Mai yn 19 ac yn fyfyrwraig ym Mhrifysgol Nottingham.***



Ma'r sefyllfa COVID yn HK yn go sefydlog ar hyn o bryd dwi'n falch cael dweud. Ma' blwyddyn ers i'r protestiadau gwleidyddol yn erbyn Llywodraeth Tseina ddechre a ma' dipyn 'di digwydd ers hynny. Rydyn ni wedi dod trwy'r 'drydedd don' fel petai 'da COVID ond ma' bywyd yn dda i gymharu â chymaint o wledydd eraill. Ma HK wedi hen arfer â sefyllfaoedd tebyg i COVID oherwydd SARS, ac roedden ni'n byw yma yr adeg hon hefyd. Fe wnaethpwyd penderfyniadau i gymryd camau llym iawn yma 'nôl yn mis Mawrth ac ma'r llywodraeth wedi gwneud hi'n amhosib i ni fod mewn cysylltiad â gweddill y byd. Am wn i ma hyn yn beth da!

Dyw hi ddim yn rhwydd hedfan i mewn ac allan o HK ac ma'r rhan fwyaf o wledydd, gan gynnwys Prydain, America a sawl gwlad yn Ewrop ar y *black list* fel petai. Os ych chi'n hedfan mewn ar awyren o'r gwledydd 'ma a phrofi yn bositif wrth gyrraedd HK, ma'n rhaid i chi fynd i ysbyty sy'n cael ei redeg gan y llywodraeth, ac os ych chi'n negatif 'ma rhaid i chi aros mewn gwesty a threulio pythefnos o *quarantine* yno. (Mae HK yn ddinas ddrud felly ma' aros mewn gwesty am bythefnos yn gostus ar y meddwl a'r boced! CLYFAR!) Ma'r ffaith bod yn RHAID i chi aros mewn gwesty am bythefnos ar hyn o bryd ar gyfer y *quarantine* yn stopio miloedd ar filoedd rhag trafeili. Dwi'n teimlo'n flin ofnadw dros fy ffrinide sy'n gweithio i Cathay Pacific sydd wedi colli eu swyddi.

Ma pobol Hong Kong, y Cantonese a'r *ex-pats*, yn gall ac yn gwrando ar y llywodraeth – ma' hi'n orfodol i wisgo mwgwd yma ym mhob man cyhoeddus, a dyna beth yw bywyd. Does byth unrhyw wrthwynebiad. Ar un adeg yn yr Haf pan roedd hi tua 90 gradd roedd rhaid gwisgo mwgwd tra'n ymarfer corff, hyd yn oed pe bai chi yng nghanol y mynyddoedd, ac roedd pawb yn dilyn y mesurau hyn.

Newidodd bywyd yn go gloi i ni fel teulu yn dilyn y Flwyddyn Newydd Tseineaidd. Aethon ni ar wyliau i Ffrainc yn Ionawr ac roedd sôn am yr 'Wuhan Flu' ar y pryd, ond doedd hynny ddim yn peri gormod o bryder i ni. Tra yn Ffrainc cawsom neges o'r ysgol i ddweud na fydde'r plant yn dychwelyd i'r ysgol, gan fod y feirws nawr yn Hong Kong, a byddai popeth i wneud â'r ysgol ar lein. Ar y cychwyn roedd y bois yn go hapus ac fe wnaethon ni aros yn Ewrop am gyfnod hirach ond doedd yr amserlen ddim yn gweithio yn grêt rhwng Asia a Ffrianc er mwyn troi lan i ddosbarthiadau byw! Doedd hi ddim yn sbri deffro'r plant am 1 neu 2 y bore er mwyn mynychu dosbarthiadau Mandarin ar Zoom! Er i rai o fy ffrindie aros yn Awstralia, Siapan a Canada fe benderfynon ni drafeilio adre - neidio mewn i *partial lockdown* a gwneud y gore ohoni.

Wedi dychwelyd i HK roedd y lle yn go wahanol - pawb yn gwisgo mwgwd, siope yn cau yn gynnar, dim twiristiaid yn teithio yma, ysgolion ar gau a phobol yn cael eu hannog i weithio o adre. O fewn cwpwl o fisoedd fe wnaeth y pandemig fwrw Ewrop ac roedden ni'n ofidus am fy merch Ela sydd ym Mhrifysgol Nottingham. Roedd rhieni tebyg i fi mewn panic llwyr yn methu dod o hyd i *flights* o Lundain i HK i gael eu plant adre, ond yn y ddiwedd fe ddaethon ni i ben â hi a daeth Ela 'nôl yn mis Mawrth … am 6 mis! Bang! Dyna ddiwedd ei rhamant hi o astudio Saesneg yn Nottingham a mwynhau blwyddyn gynta'r Brifysgol! Damo!

Ar un adeg roedd 5 ohonom yn y tŷ yn gweithio ar lein - roedd y bechgyn wedi arfer' da'r syniad gan eu bod wedi cael blas arni yn ystod y protestiadau. 'Roedd y wi-fi yn broblem ac roedd na lot o weiddi a sgrechen ond ddaethon ni ben â hi! Dwi ddim yn credu aethon ni i'r ddinas am rai misoedd, ac yn lwcus i ni ry' ni'n byw ar lan y môr 'da digon o awyr iach. Er i'r tai bwyta ac ati gau roedd bywyd yn lled dda. Dwi'n ddwl am redeg yn y mynyddoedd a dwi'n credu i mi ddarganfod cannoedd o lwybrau rhedeg a mynyddoedd newydd yn ystod COVID. Dyna oedd ein patrwm wythnosol dros y gwylie Haf. Yn hytrach na joio cwmni teulu yn Ngorllewin Cymru roedden ni'n ceisio creu anturiaethau newydd i'r plant - gwersylla yn y gwres enbyd, cerdded a rhedeg, coginio adre, dysgu geme crefftau newydd, ond wrth gwrs doedd dim yn cymharu 'da'r ymweliad blynyddol â Sir Benfro.

Ma bywyd mwy neu lai wedi dychwelyd i fywyd arferol ar raddfa ddyddiol yma, 'da'r traethau newydd ail-agor, sydd yn fendith. Ma'r haf, hydref a nawr gaeaf 'di bod yn boeth iawn ac roedd y ffaith bod y traethau a'r pyllau nofio allanol i gyd wedi cau yn anodd ar adege, ond fe wnaethon ni brynu llong bysgota fach *tinny*'a *stand-up paddle board* achos roedd hawl 'da chi fod yn y môr/ ar y môr mewn niferoedd o 4. Nefoedd! Dw i nawr yn gwybod sut ma dal pysgodyn a gwneud *Victoria Sponge* bendigedig! Ma'r bois nôl yn whare rygbi ac yn mynd i'r gampfa, ac ma'r ysgol ar agor bob dydd, sydd yn fendith ar ôl colli bron i flwyddyn o ysgol. Does dim hawl da nhw whare ar y *sky pitch* a ma gwisgo mwgwd ym mhob dosbarth yn orfodol. Ma fy ngŵr Rhodri 'nôl yn gwaith felly does

dim 'da ni achwyn amdano. Rydyn ni mewn partwm da o wneud *face time* 'da'r teulu yng Nhgymru ac Ela yn Lloegr a ma hyn oll yn iawn a ry' ni gyd wedi arfer 'da'r bywyd newydd 'ma. Bydd Nadolig yn wahanol i ni eleni achos ma Ela di penderfynu aros ym Mhrydain yn hytrach na dod 'nôl aton ni. Ma hi di neud *quarantine* llywodraethol unwaith, megis bod mewn carchar, a dyw hi ddim yn medru godde'r syniad o wneud pythefnos ar ei phen ei hun mewn stafell gwesty unwaith eto - sy'n ddaealladwy.

Dwi nawr yn gobeithio'n fawr bydd y brechiad yn dod i HK a bydd pethe yn agor lan o ran trafeili. Mae ynys HK wastod yn teimlo'n 'ynysig' iawn a ma' dyn yn aml yn dyheu i neidio ar awyren a thrafeili. Yn syndod i mi, dwi ddim wedi ysu am adael HK dros gyfnod Covid - bron i'r gwrthwyneb! Ma'r ffaith fy mod wedi fy ngorfodi i arafu, cymryd cam yn ôl a gwerthfawrogi beth sydd 'da ni ar ein stepen drws wedi bod yn wefreiddiol. Ma HK erbyn hyn yn saff o ran Covid, a'r niferodd yn isel iawn. Ma'r llywodraeth yn cymryd camau llym ond dyma beth sydd wedi ein hachub ni. Dwi 'di cael cyfle i weithio yn galed ar fy musnes fel Hyfforddwr Bywyd *(Life Coach)* a chysylltu â natur mewn ffordd wefreiddiol … gwneud yoga yn y mynyddoedd, ar *stand -up paddle boards*, edrych ar yr haul yn gwawrio, gwrando ar yr adar … o ie … a chlirio mas lot fawr o gypyrdde a rhoi llwyth o ddillad i'r Salvation Army ac yn y blaen!

Y peth pwysica sydd wedi fy nharo i am hyn oll yw pwysigrywdd cysylltiadau a chyfathrebu â theulu. Prin fod hynny erioed wedi bod mor bwysig. Dwi'n lwcus mod i'n byw mewn tŷ bishi ond dwi'n teimlo dros ffrindie a theulu sydd yn gaeth i'w cartrefi ac yn teimlo'n isel eu hysbryd oherywdd unigrwydd. Dwi di bod yn meddwl yn ddwys am bwysigrywdd y cyfathrebu ma.

Hefyd, gwers fawr yw bod dim ishe becso am y pethe bach … dy' nhw'n ddim byd pan ych chi'n wynebu pandemig. Cyfathrebu a charu teulu a ffrindie yw'r peth pwysica. Mae Covid wedi rhoi cyfle i nifer gael mwy o gydbwysedd ym mhob rhan o'u bywyd - busnes, hunan-ddatblygiad, cadw'n heini a datblygu sgilie newydd. Dwi'n ffyddiog y bydd bywyd 'nôl ar ras wyllt o fewn blwyddyn ond yn bersonol bydda i'n gwerthfawrogi'r hyn ma Covid wedi dysgu i mi.

**Os am wybodaeth pellach ynglyn â gwasanaeth hyfforddiant bywyd ar-lein Beks James, ewch i @beksjames_lifecoachinghk ar Instagram, neu www.sassymamahk.com ar y we.**

## Rhiannon ac R. Alun Evans yn rhannu atgofion am Teleri Bevan

Merched yn gyntaf :

"Fel finne", medd Rhiannon, "merch ffarm o Sir Aberteifi oedd Teleri ac, fel finne, yn un o dair o ferched. Byddai Teleri wrth ei bodd yn marchogaeth, ac yn aml ar bnawn Sadwrn fe ddôi ar gefn y ferlen o'i chartre yn Llangwyryfon i lawr i 'nghartre i yn y plwy nesa, Llanddeiniol.

Roedden ni'n cyd-oesi yn Ysgol Ramadeg Ardwyn, Aberystwyth, a doedd yr un ohono ni'n frwd i wneud ymarfer corff, felly fe fydden ni yn ysgrifennu nodyn i gael ein hesgusodi – y naill dros y llall yn aml iawn.

Ymhen blynyddoedd fe groesodd ein llwybrau eto ac am gyfnod roedd y ddwy ohonon ni yn cyfarfod yn wythnosol yn adeilad y BBC yn Llandâf, Teleri'n cynhyrchu'r rhaglen *Merched yn Bennaf* a finne'n cyflwyno. Drannoeth i'r rhaglen gael ei darlledu fe fyddai hi'n trefnu'n ddiffael i ail-wrando'r rhaglen a mynd trwyddi â chrib fân i weld beth ellid fod wedi ei wneud neu ei ddweud yn well a dysgu oddi wrth hynny. Dyna'r safon; y gore posibl a dim llai".

Do, daeth Teleri â llawer o werthoedd y cefndir gwledig gyda hi i fyd gor-wrywaidd darlledu ym mhum degau'r ganrif ddiwethaf. Un o'r gwerthoedd hynny oedd teyrngarwch. Un arall o'r gwerthoedd oedd parchu pobol a'r pwysigrwydd o edrych ym myw llygad y sawl oedd gyferbyn â hi. Doedd ganddi hi ddim amynedd gyda'r rhai fyddai'n edrych ar eu sgidiau wrth drosglwyddo penderfyniad anodd.



***Llun: Y Lolfa***

Ffermwr dylanwadol oedd ei thad. Astudio amaethyddiaeth a'r gwyddorau gwledig a wnaeth hithau yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor. Am gyfnod bu'n Drefnydd Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru. Byddai hynny'n rhannol yn esbonio pam yr ymddangosai yn fwy cyfforddus ar faes y *Royal Welsh* nag ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol. Ond eto, nid person y *comfort zone* oedd hi; nid felly y dringodd hi i fod yn Bennaeth Rhaglenni BBC Cymru, ac am dymor byr yn Rheolwr y Gorfforaeth yng Nghymru.

Achlysurol oedd rhaglenni Cymraeg ar y *Welsh Home Service*. Yn Saesneg y gweithiai hi yn bennaf. Gyda sefydlu BBC Cymru ganol y chwe degau daeth elfen o ddatganoli i'r byd darlledu. Erbyn diwedd y saith degau roedd Radio Wales a Radio Cymru wedi'u creu. Daeth hithau, yn ei thro, yn Olygydd ac yna'n aelod o'r tîm Rheoli gan weld drosti ei hun pa mor anwybodus, ac weithiau pa mor drahaus, oedd y 'meistri' Llundeinig.

Coffa da am ferch alluog; un o flaen ei hoes falle. Yn awdures, *Years of my Time* ac *Years on Air*, yr oedd parch i'w dawn a'i barn a'i hiwmor – byddai'n dda gallu dweud 'gan bawb'. Ond mynnodd yr ymdeimlad gwrywaidd, hyd ddiwedd ei gyrfa, mai talcen caled oedd y diwydiant darlledu i ferched yn bennaf.

# Adolygiad Llyfrau

## Cyfrol Owen John Thomas




Mewn rhagfynegiad i'r llyfr newydd mae Vaughan Roderick yn disgrifio Owen John Thomas fel un o'r prif gymeriadau yn hanes adfywiad y Gymraeg yng Nghaerdydd. Fel eiriolwr cyson dros addysg Gymraeg, un o brif sylfaenwyr Clwb Ifor Bach ac fel tad i chwech a thad-cu i naw mae ei gyfraniad i fywyd Cymraeg y brifddinas wedi bod yn sylweddol! Mae gwasg y Lolfa newydd gyhoeddi llyfr gan y cyn Aelod Cynulliad ac un o blant balch Caerdydd am hanes y Gymraeg yn ein prifddinas. Mae *The Welsh language in Cardiff: A history of survival* yn chwalu'r myth bod Caerdydd erioed wedi bod yn dre Seisnig. Trwy ddefnyddio ffynonellau amrywiol fel enwau personol a chaeau, cofnodion llysoedd, dyddiaduron a dogfennau cyfreithiol mae'n dangos bod y Gymraeg wedi bod yn iaith fyw yn y dref gaerog ac yn brif iaith yn y plwyfi cylchynol ar hyd y canrifoedd. Cawn hefyd straeon am ochr llai parchus o fywyd Cymraeg Caerdydd trwy ei phuteiniaid ac achosion athrod. Bargen am £9.99 ac anrheg Nadolig perffaith.

Dywed Owen John Thomas,

“Dyma ffrwyth ymchwil sydd wedi bod yn llafur cariad dros nifer o ddegawdau ag a arweiniodd at fy ngradd Meistr yn 1990 ar hanes yr iaith Gymraeg yng Nghaerdydd.”

Ychwanega Rhys ab Owen, un o feibion yr awdur:

“Mae’r teulu yn falch iawn bod y llyfr yma wedi’i gyhoeddi, a bydd ymchwil dad yn cael ei ddarllen dros Gymru gyfan a thu hwnt. Gobeithio y bydd yn rhoi terfyn ar y chwedl mai yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn unig y daeth Cymreictod Caerdydd i fod. Mae gan yr iaith Gymreg hanes hir a chyfoethog yn ein prifddinas a dylid cofleidio a dathlu hyn.”

Dysgodd Owen John Thomas Y Gymraeg yn ei ugeiniau hwyr a daeth yn aelod amlwg o’r gymuned Gymraeg yng Nghaerdydd.

http://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781784618827&tsid=5#top

## Fan Hyn a Fan Co’ gan Anne Gwynne

Roedd Anne Gwynne yn ysgrifennu colofn am deithiau maes Cymdeithas Edward Llwyd ym mhapurau bro *Y Ddolen* a’r *Barcud* yn ardal Tregaron. Nid dim ond bob hyn a hyn ond bron yn ddi-dor rhwng 2004 a 2018. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae hi wedi bod yn brysur yn taflu ei llygaid drostyn nhw unwaith eto. Mae detholiad o 38 wedi dod at ei gilydd i greu cyfrol fach hwylus gyda lluniau braf a hanesion o rai o lecynnau braf sir Geredigion a thu hwnt.

Bydd ar werth yn eich siopau lleol cyn y Nadolig am £7.95 neu oddi wrthi hi, Anne Gwynne ar 01794 298995. Rhennir unrhyw elw rhwng Cymdeithas Edward Llwyd, Ambiwlans Awyr Cymru ac Adran Cemotherapi, Ysbyty Bronglais.




Cymdeithas Edward Llwyd
Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru
Elusen Gofrestredig rhif 1128027

## Ble mae Boc?
## Gan Huw Aaron

Yn dilyn llwyddiant *Ble Mae Boc* yn 2018 gan y cartwnydd Huw Aaron, mae Boc, y ddraig fach ddiniwed, wedi mynd ar goll unwaith eto – y tro yma, ym mydoedd dychmygol Cymru. Ewch ati i chwilio amdani ym myd Y Mabinogi, Cantre'r Gwaelod, Teyrnas y Tylwyth Teg, Tir na n-Og, Sŵ Creaduriaid Hudolus… a llawer mwy.

Gyda lluniau llawn manylder a hiwmor, a dros 200 o bethau i'w darganfod, mae oriau o hwyl i'w cael gyda Boc… ar goll yn y chwedlau!

Ar werth yn eich siopau lleol nawr.

*Ble Mae Boc?*

*Ar Goll yn y Chwedlau* gan Huw Aaron (Y Lolfa)

**Pris: £4.99**




## Lluniau Luned Aaron mewn Sioe Nadolig ar y we

Bydd un o orielau hynaf Caerdydd, Oriel yr Albany yn y Rhath, yn arddangos ar y we yn unig ar gyfer ei sioe aeaf flynyddol. Fel nifer o orielau, maen nhw'n ymateb i her y pandemig trwy werthu ar y we, ac mae curaduron yr Albany wedi synnu at y nifer fu'n prynu ganddyn nhw dros eu gwefan yn dilyn misoedd y cloi mawr yn y gwanwyn.

Artistiaid lleol o Gaerdydd a'r cyffiniau fydd yn arddangos eu gwaith yn nwy sioe nesaf yr oriel. Yn eu mysg, bydd yr artist a'r arlunydd o'r Eglwys Newydd, Luned Aaron, a fydd yn dangos casgliad o dirluniau newydd. Meddai Luned:
"Mae wastad yn braf arddangos yn Oriel yr Albany, a dwi wedi cael modd i fyw yn creu'r tirluniau yma. Mae hi wedi bod yn gyfnod reit gynhyrchiol yn ddiweddar a dweud y gwir. Tirluniau bach, digon rhesymol ydyn nhw, wedi eu sbarduno gan filltir sgwâr fy mhlentyndod yn y gogledd - o draethau hudolus Pen Llŷn i fynyddoedd dramatig Eryri. Dwi'n anelu at gyfleu emosiwn a theimlad yn y gwaith."

Bydd y gwaith yn y sioe gyntaf ar werth ar y we yn unig. Mae'r oriel yn bwriadu agor eu drysau i'r cyhoedd ar gyfer yr ail sioe ar ddechrau'r flwyddyn newydd.

Sioe Nadolig ar y We, Oriel yr Albany: 14 Tachwedd-9 Ionawr 2021.

Sioe Grŵp y Gaeaf, Oriel yr Albany: 14 Ionawr-6 Chwefror www.albanygallery.com


*Gwlith y Bore*


*Gorwelion*

**Llwyddiant**

Mewn cystadleuaeth lenyddol a gynhaliwyd gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf eleni enillwyd y wobr gyntaf o gadair fechan gan Owen Morgan o Gaerdydd. Y dasg i'r rhai yn y categori agored oedd llunio cerdd neu gasgliad byr o gerddi yn y mesurau caeth a/neu rydd i ymateb i'r argyfwng Covid-19 yng Nghymru. Roedd hi'n gystadleuaeth ardderchog a'r beirniad, y Prifardd Aneirin Karadog, yn canmol y safon yn fawr. Gellir darllen gwaith Morgan ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru - www.steddfota.org. Llongyfarchiadau arbennig iddo am ddod i'r brig.

## POBOL Y TOPIE / BONT-GOCH LIVES
## Richard E. Huws

Llyfr newydd ar hanes Bont-Goch a gogledd Ceredigion. Cyfrol ddwyieithog gan Richard Huws yn cynnwys hanes difyr dros 100 o bobl yn ddynion a merched a wnaeth gyfraniad i fywyd cyfoethog un o gymunedau gogledd Ceredigion, tra bod eraill a anwyd yn Bontgoch, wedi gwneud eu cyfraniad y tu hwnt i Geredigion mewn rhannau eraill o Gymru, yn Lloegr, ac mewn nifer o wledydd tramor gwahanol.

Mae cysylltiadau teuluoedd Bont-Goch yn ymestyn i gynnwys nifer o ardaloedd yng ngogledd Ceredigion a thu hwnt.

Mae'r awdur wedi byw yn y pentre ers ugain mlynedd. Mae'r gyfrol hon yn cydfynd â'i gyfrol Enwau Tai a Ffermydd Bont-goch (Elerch) a gyhoeddwyd yn 2017.

Pris £12.00. Am fwy o fanylion gellir cysylltu â'r awdur rehuws@aol.com




# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yn ein hail gyfarfod y tymor hwn eto trwy ZOOM (gyda diolch i Cerian Angharad am ei gofal medrus) ar 16 Tachwedd cawsom arweiniad hwyliog gan Dr Zoë Morris-Williams, sy'n feddyg teulu yn ardal Pontypridd. Ychydig dros flwyddyn yn ôl bu Zoë gyda ni dan amgylchiadau cyn-Covid; y tro hwn, yn naturiol, os hynny, y testun oedd ymateb meddyg teulu i Covid.

Bu'r cyflwyniad yn ein goleuo ar sawl agwedd, ar brydiau gyda chymorth sleidiau PowerPoint, techneg newydd ZOOM i Zoe o'i chegin. Cafwyd sylwadau ar ddata, rhai yn gyfarwydd i ni o wylio rhaglenni teledu, ond yn rhoi blas ar sialens un meddyg i amgylchiadau amrywiol cleifion. Cawsom ddeall bod yr enw COVID-19 yn golygu *coronavirus disease 2019* (blwyddyn ei nabod). Nid oes trefn gyson o adnabod firws yn ôl blwyddyn, dim mwy nag sy o drefn enwi stormydd. Gan fod llediad eang a chyflym Covid-19 yn gysylltiedig ag arferion teithio rhyngwladol, cynigiodd Zoë na fydd yr arferion hyn yn dychwelyd am fisoedd i ddod.

Hyd y gallwn ragweld, byddwn yn dal gyda ZOOM yn gyfrwng cyfarfod am y misoedd nesaf. Rydym yn chwilio posibiliadau cyd-gyfarfod yn y dull hwn gyda chymdeithasau gwyddonol eraill.

————————-

Wrth dynnu'r cyfarfod I ben cyfeiriodd y Cadeirydd at y newyddion trist o farwolaeth Syr John Meurig Thomas. Eisoes cafwyd teyrngedau lu am y Cymro arbennig hwn. Yn naturiol bu sôn am ei ddoniau disglair iawn mewn cemeg, ym Mangor, Aberystwyth, Caergrawnt a Llundain. Nid llai niferus na chynnes yw'r teyrngedau am ei hynawsedd wrth ymwneud â phobl ar bob lefel o gymdeithas dros y byd. Cynhelir angladd Syr John yng Nghaergrawnt ar 4 Rhagfyr. Gobeithir cynnal gwasanaethau cyhoeddus er cof yng Nghaergrawnt a Llangennech yn 2021.

*Neville Evans*



## Tymor ym Mhrifysgol Aberystwyth dan reolau COVID

Mae fy misoedd cyntaf ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi bod yn lot o hwyl. Er hyn, mae llawer o straen wedi bod oherwydd mae'n rhaid gwylio darlithoedd ar-lein. Rwyf wedi cael tua un ddarlith yr wythnos ar y campws ond rwyf wedi bod yn gweud y gweddill o fy ystafell wely. O ganlyniad bu'n anodd iawn i gymdeithasu gyda phobl sydd ar fy nghwrs Seicoleg ac Addysg. Er hyn, gan fy mod i'n byw yn Neuadd Pantycelyn, rwyf wedi gwneud llawer o ffrindiau yn y llety yma. Er ein bod ni'n dal i fod mewn swigod ym Mhantycelyn a dim Cofid, mae'r ystafelloedd cymdeithasu wedi bod ar gau felly rydyn ni wedi bod yn mynd i'r ffreutur neu yn chwarae pêl-droed ar y gwair y tu allan i Bantycelyn. Rwyf wedi dewis ymuno gyda'r tim pêl-droed Cymraeg, Y Geltaidd er mwyn cymdeithasu a chwarae ond ar y foment nid ydyn ni wedi dechrau oherwydd rheolau Cofid. Mae llawer wedi bod yn digwydd ym Mhantycelyn, er enghraifft, pan wnes i a 3 bachgen arall eillio'n pennau ar yr ail o Dachwedd er mwyn codi arian tuag at elusen Ymchwil Canser Cymru. Fe wnaethon ni hyn gan fod un o'r bechgyn wedi dioddef o Lewcemia pan roedd e'n fachgen ifanc. Yn y diwedd, fe wnaethon ni godi dros £550 tuag at yr elusen. Rydyn ni hefyd wedi bod yn edrych ar dai ar gyfer yr ail flwyddyn yn barod gan fod y tai yn mynd yn gyflym. Rydyn ni wedi dewis byw mewn 2 dŷ o 8 gan fod ein grŵp ni mor fawr. Rwyf yn edrych ymlaen at yr ail semester gan obeithio y bydd mwy o ddarlithoedd a gweithgareddau cymdeithasol yn mynd i fod yn fyw a ddim ar-lein.

*Gethin Ray*

# Y Fronfraith, Anti Hilda a Fi

Ar fy nhaith foreol ddoe roeddwn wedi mynd â fy mheiriant recordio efo fi. Mae gymaint o adar yn canu yr awr cyn y wawr ac mae'n gyfle da i recordio. Meddyliais mai dim ond pwyso'r botwm oedd rhaid ond yn amlwg nid oeddwn wedi gosod y lefelau, felly doedd dim un o'r lleisiau hyfryd wedi'i ddal. Er mwyn paratoi am gael ail gyfle eisteddes yn yr ardd i baratoi'r peiriant er mwyn gwneud ail ymdrech heddiw. Doedd dim llawer o adar yn canu ar y pryd ond digon i mi wneud yn siŵr bod popeth wedi'i osod yn iawn. Wrth bwyso'r botwm i wrando ar y canlyniadau, nid yr adar oedd yn canu ond Anti Hilda yn siarad! Dair blynedd ynghynt roeddwn wedi mynd i'r gogledd ac yn ystod yr ymweliad wedi galw i weld Anti Hilda efo Gwylan, fy nghyfnither. Heblaw am y pleser o weld Anti Hilda roedden ni'n gobeithio recordio sgwrs.

Gosodes y meicroffon ar y bwrdd a dechrau recordio. Siaradon ni am seiclo a hithau'n sôn am yr amser aeth hi ac Anti May, a oedd yn hŷn na hi, o Ddolgellau'r holl ffordd i Gymoedd y De. Dro arall aeth tair o'r chwiorydd i seiclo yn ardal Llŷn. Dyna lle roedden nhw'n edmygu harddwch y wlad o'u cwmpas ac un yn codi ei braich i dynnu sylw at safle'r ysgol fomio. Colli ei chydbwysedd a syrthio yn erbyn y chwaer ar y chwith, hithau'n taro'r drydedd chwaer a'r tair yn glanio'n un pentwr ar y llawr.

Wrth i mi eistedd yn yr ardd yn gwrando ar y straeon hyn sylwais ar fronfraith yn crwydro o dan y coed afalau. Roedd hi'n hapus ei byd yn chwilota a phob hyn a hyn yn aros i syllu arnaf. Y ddau ohonom yn fodlon iawn i rannu'r ardd.



Gofynnodd Gwylan i'w mam a oedd hi'n cofio'r amser aethon nhw i aros yn Stratford a mynd i theatr yr RSC. Oedd. A oedd hi'n cofio mynd i'r theatr arall, 'The Other Place' i weld y ddrama Gardd Eden? gofynnodd Gwylan. Oedd ac ychwanegodd yn llawn cyffro *"and they were all nude!"* Dim ond ar y llwyfan wrth gwrs. Wedi i mi glywed hi'n dweud hyn syrthiodd y recorder oddi ar fy nglun a diffodd ei hun. Codais fy mhen i weld y fronfraith yn heglu hi o'na efo'i hadenydd yn dynn dros ei chlustiau mewn syndod.

Does dim modd gwneud *fast forward* ar y peiriant ac roedd hyn wedi digwydd awr i mewn i'r sgwrs felly dw i ddim yn cofio mwy. Ond gan fod y straeon gorau yn gorffen efo *cliffhanger* mi wna i adael popeth yn fanna.

Hwyl fawr i chi, a'ch dychymyg!

*Rob Evans*

# Dweud eich Dweud am Gerdded a Seiclo yng Nghaerdydd

Ydych chi'n teimlo'n rhwystredig wrth gerdded neu seiclo o amgylch Caerdydd? Efallai hoffech chi gerdded neu seiclo gyda'ch plant i'r ysgol ond mae'r heolydd yn rhy beryglus? Neu am fynd am dro lawr i'r siop ond y car yw'r unig opsiwn ymarferol oherwydd yr heol brysur?

Mae yna wefan newydd wedi ei lansio mewn cydweithrediad rhwng Cyngor Caerdydd a Llywodraeth Cymru sy'n gofyn i chi ddweud eich dweud – ac awgrymu mannau y gellid eu gwella. Gallwch nodi ardal neu stryd neu groesfan benodol.




Wrth ei lansio fe ddywedodd y Gweinidog Trafnidiaeth, Lee Waters AoS:
"Rydym am fynd i'r afael â llawer o rwystrau sy'n wynebu pobl wrth iddynt ystyried cerdded neu feicio i gyflawni siwrneiau pob dydd. Rydym wedi buddsoddi mwy mewn gwelliannau i lwybrau cerdded a beicio dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i sicrhau bod gennym seilwaith o ansawdd a byddwn yn parhau i wneud hynny."

Mae'n rhan o waith ehangach Bwrdd Teithiol Llesol Llywodraeth Cymru, ac mae'r Cadeirydd newydd, Dr Dafydd Trystan, yn falch i weld Caerdydd (a Cheredigion) yn arwain ar y gwaith hwn. Meddai:
"Dwi am weld cerdded a seiclo yn dod yn ddewis cwbl naturiol am deithiau byr yn y brifddinas. Gyda'ch cymorth chi gallwn greu llwybrau a darpariaeth newydd a thrwy hynny ddechrau creu Caerdydd yn ddinas drafnidiaeth werdd go iawn."

Mae'n wefan syml i'w defnyddio ac ar gael fan hyn: https://cardiff.commonplace.is/

Mae'n gyfangwbl ddwyieithog gan gynnwys y cyfle i gael unrhyw sylwadau a gyflwynwir yn y Saesneg wedi eu cyfieithu! Model gobeithio i'r dyfodol am wefannau rhyngweithiol fel hyn. Felly ewch ati i gynnig awgrymiadau a syniadau – a maes o law byddwch yn gweld newidiadau er gwell ar draws y ddinas!

*Dafydd Trystan*

# Colofn Hannah



## Plentyn Duw - Gauguin

Helo 'to. Gobitho bo chi'n iach, ar ôl yr holl feddygyniaethe 'na!

Fe ddechreues i'r golofn 'ma Nadolig d'wetha, a 'ma ni 'to!! - scersli bilif!!!! ys gwetws Ifans y Tryc.

Hanes am lun Nadolig unigryw sy 'da fi i chi'r tro 'ma. Y Natifiti Gwahanol.

TE TAMARI NO ATUA"
GOD'S CHILD / PLENTYN DUW



Falle bod rhai ohonoch chi sy'n fintej fel fi, yn cofio'r ffilm *South Pacific*, wel fanna ma'r hanes 'ma wedi'i leoli, ymhell o 'ganol gaeaf noethlwm'.

Fan hyn, ar ynys Tahiti, y crewyd y portread rhyfedda' o enediceth Crist, yr un mwya' amrwd, - y Natifiti gwahanol.

Portreadir Mair fel arfer, yn lluniau'r meistri, yn urddasol, ac yn wyn ei chroen, a'r defnydd o *giaroschuro*, (sef golau,) yn neud ei gwedd yn wynnach fyth! er ei bod hi'n hannu o'r Dwyrain!! Ond ma gwyn yn gysylltiedig â phurdeb. Yn y lluniau oesol yma, y baban yw'r canolbwynt fel arfer, - nid yn y llun yma!

Fan hyn, merch dywyll yw hi, ac yn gorwedd ar wely, wedi ymlâdd,ar ôl rhoi genediceth, llun wrth gwrs sy'n feiddgar a phryfoclyd.

Paul Gauguin yw'r artist, a'i fodel yn y darlun yma yw croten peder-ar-ddeg mlwydd o'd, - ei feistres, ac yntau ar drothwy'r hanner cant! Enw'r llun yw *Te Tamari No Atua* - iaith Tahiti am *Blentyn Duw*.

O'dd 'da Gauguin ryw obsesiwn â'r duwdod. Edrychodd ar ei hunan fel duw. Gauguin yn gowlad o gymhlethdod, yn 'greawdwr' ei gân â'i natifiti noeth, natifiti'r nwyd.

O'dd y groten 'ma yn erfyn ei blentyn e', a hynny ar ateg o'dd 'n llawn arwyddocâd, - sef y Nadolig, felly o'dd rheidrwydd i greu darlun speshal. Yn ei olwg e' y ferch yma o'dd Mair Forwyn, a'r plentyn o'dd y Crist, yntau'n 'dduw' - felly, enw'r llun, *God's Child*.

Ma'r ferch yn gorwedd ar flanced lachar felen. Yn y cefndir ma nyrs, ne fydwraig? yn dala baban. Ond o graffu, gellir gweld nad genediceth cyffretin mo hwn, a'r flanced lachar, yn ogystal ac awgrymu gwellt y preseb, yn ffurfio eurgylch o gwmpas pen y fam. Mae eurgylch o gwmpas pen y baban hefyd, a'r person tu ôl iddo ag adenydd gwyrdd. Yna, ar wahân, ar y dde, mae anifeiliaid y stapal. Fan hyn, nace'r baban yw canolbwynt y llun, ond y fam, hi sy'n hawlio'r sylw. Yno, yn Tahiti ei thymp, mae merch â'i geni dwyfol, *Te Tamari No Atua, - Plentyn Duw.*

Halodd yr artist y llun i Ewrop i'w werthu, ond heb lwc. Cafodd y darlun ddau waredigeth, un o'r bomie yn ystod yr ail ryfel byd, a'r ail odd wrth Heddlu Celf y Natsiaid. Gwelir ef nawr mewn oriel gelf yn Munich, Munich Naga Pinokotek, llun sy'n gyfuniad o gelf, crefydd a rhywioldeb, a phetaech chi'n mynd i Tahiti heddi, gwelech long criws, a'i henw:- Paul Gauguin.

Yn y gerdd ganlynol, drîes i ddychmygu beth fydde ymateb Mair Forwyn at y llun pe bae hi'n ei weld heddi.

CÂN NEWYDD MAIR

"A genedigaeth yr Iesu oedd fel hyn":-

"Ie, fel hyn o'dd hi,
fel hyn o'dd hi'n gwmws.
Dan frwsh paent y canrifoedd
fe'm gwelsoch i
yn glogyn glas o wyryf,
un eiddil i'w haddoli,
a'r geni yn garol.
Madona mwyn y mamau
a'm gwedd yn ganaid wyn,
a minnau, Mair,
mor dywyll â'r Dwyrain ei hun.
Ym morder bach fy muchedd,
rhoesoch flodau'r forwyn,
Briallu Mair,
Clustog Mair,
a Dagrau Mair,
ond mynnodd Dant y Llew ei le,
a'i lygad ar y llwybr,
yn yr ardd hon,
'roedd chwyn y chwant
cyn dydd "Y Dewis".

Yn storm clustogau gwyn y cymylau,
fe'm frwythlonwyd â'r goleuni,
mor od!
mor arswydus o od!

Ond,
fel hyn oedd hi,

fel 'gwaredwr' Gauguin,
a'r geni mor gyffredin
â biswail beudy
yn y Bethlem o boen.
Yno,
cyn dyfod y Doeth,
wedi diwel y dŵr,
yno,
mewn stabal o sgrech,
gorweddais,
a gwthio'r Gwaredwr i'r golau,

*Te Tamari NO Atua*
yno yng nghrud fy nghoesau
a lludded fy llafur.

A chwithau heddiw,
a'm cân yno i'ch cynnal,
ffeiriwch eich fics o ffantasi,
a gwelwch
Gauguin
y gwir.

Bendithion yr Ŵyl i chi i gyd.

## Croeso i Bennaeth Newydd Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Morgannwg

Pleser yw cyflwyno'r Pennaeth newydd, Rhys Angell Jones, a benodwyd i ddechrau yn y swydd ar y 1af o Ionawr, 2021. Fe fydd trydydd Pennaeth yr ysgol, gan ddilyn yn ôl troed Dr Dylan Jones, a sefydlodd yr ysgol yn y flwyddyn 2000, a Hywel Price sy'n ymddeol ar ôl cyfnod o bum mlynedd wrth y llyw. Dywedodd Mr Rob Evans QPM, Cadeirydd y Llywodraethwyr, "Pleser o'r mwyaf yw cyhoeddi penodiad Mr Rhys Angell Jones fel Pennaeth Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Roedd yn ymgeisydd rhagorol yn ystod y broses gyfweld ac yn meddu ar brofiad cyfoethog ....... Ei weledigaeth ar gyfer yr ysgol hon yw i adeiladu ar seiliau cadarn ei ragflaenwyr ac i sicrhau mai Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg yw'r ysgol orau yng Nghymru – ac mae ganddo strategaethau eglur er mwyn gwneud hynny ......".

**************

Bu Rhys yn byw yng Nghaerdydd tan yn dair blwydd oed ac yna symud i Gorris Uchaf, yng Ngwynedd, a derbyn ei holl addysg cynradd yn Ysgol Gynradd Corris. Dychwelodd i Gaerdydd pan yn 11 mlwydd oed a derbyn ei holl addysg uwchradd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Wedyn, ennill gradd ym Mhrifysgol Coventry cyn dychwelyd i Gaerdydd a gweithio fel Swyddog Cynllunio i Gyngor Bwrdeistref Islwyn (ym Mhontllanffraith) ac yna i Awdurdod Datblygu Cymru (yng Nghaerdydd) cyn penderfynu hyfforddi i fod yn athro ym Mhrifysgol Abertawe yn 1996.

O fewn blwyddyn fe'i penodwyd yn athro Daeryddiaeth yn Ysgol Gyfun Treorci – ac yno y cafodd e'r 'profiad cyfoethog' y soniodd Mr Rob Evans amdano, gan ddyrchafu trwy'r rhengoedd yn Bennaeth Blwyddyn (2000), Pennaeth Cynorthwyol (2004), Dirprwy Bennaeth (2008). Yna, yn 2010, cyrraedd y brig a'i benodi'n Bennaeth yr Ysgol.

Tra'n bennaeth yn Nhreorci fe arweiniodd yr ysgol trwy ddatblygu polisïau blaengar a llwyddiannus – a dau arolygiad canmoliaethus. Yn y cyntaf, yn 2012, cafodd yr ysgol yr anrhydedd o fod yr ysgol uwchradd gyntaf yng Nghymru i'w barnu yn 'rhagorol' ym mhob un o'r 15 dangosydd a ddefnyddiwyd gan Estyn ar y pryd.

Ynglŷn â'i benodiad newydd, dywedodd Rhys, "Wedi treulio 10 mlynedd hapus iawn fel Pennaeth Ysgol




Gyfun Treorci, dim ond un swydd arall oedd o ddiddordeb i mi. Felly, roedd cael fy mhenodi i arwain YGBM drwy'r cyfnod nesaf yn ei datblygiad yn fater o falchder a chyffro mawr. Does dim dwywaith amdani, mae llwyddiant hanesyddol yr ysgol yn haeddu clod o'r radd flaenaf. Wedi dweud hynny, y prif atyniadau i mi yw yr awch ymhlith y llywodraethwyr, y staff, y disgyblion a'u rhieni, i lwyddo o fewn awyrgylch positif, a'r balchder sydd ganddynt yn eu hysgol. Edrychaf ymlaen yn fawr i ymuno â'r tîm yn mis Ionawr, ac i ymgymryd â'r dasg o wireddu'r weledigaeth i sicrhau mai YGBM yw yr ysgol orau yng Nghymru."

**************

Mae Rhys yn briod â Sophie, sy'n athrawes Addysg Gorfforol a Phennaeth Dawns yn Ysgol Gyfun Treorci, ac mae ganddynt dri o blant, dau fab a merch. Ar ôl byw ym Mhoncanna am bron i ugain mlynedd, fe symudodd y teulu i fyw ym Mro Morgannwg ddwy flynedd yn ôl.

***Derbyniodd y Dinesydd neges o'r ysgol yn dweud bod 'cymuned y Fro' yn edrych ymlaen at eich croesawu i'w plith, Rhys, ac fe ategwn ninnau hynny gan ddymuno pob llwyddiant a hapusrwydd i chi yn eich swydd newydd.***

*Bryan James*

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

## Yr Athro E. Wyn James



### 'Eilun Coll': Eluned Morgan, O. M. Edwards a'r Rhyfel Mawr *(Rhan 2)*

Roedd Eluned Morgan yn heddychwraig o argyhoeddiadau cryf. Dywed mewn llythyr yn Ebrill 1916: 'Yr oedd fy hen dad annwyl wedi'm dysgu er yn blentyn nad oedd rhyfel ond math ar wallgofrwydd'; ac roedd Michael D. Jones yntau, 'tad y Wladfa Gymreig', yn gadarn ei heddychiaeth. Ac arwydd o wrthwynebiad di-syfl Eluned i ryfel ac o'i safle yn y bywyd diwylliannol Cymraeg yw'r ffaith iddi fod yn un o'r tua 30 a oedd yn bresennol mewn cynhadledd heddwch nodedig yn y Bermo ddiwedd Mawrth 1916 – hithau'n un o'r unig ddwy a fu yno. Ymhlith y cynadleddwyr eraill roedd Thomas Rees (prifathro Coleg Bala-Bangor), J. Puleston Jones, George M. Ll. Davies, T. Gwynn Jones a T. H. Parry-Williams. Dros ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, gallai un o'r cynadleddwyr, R. J. Jones (a oedd ar y pryd yn fyfyriwr ym Mangor, ond a ddaeth yn 1931 yn weinidog eglwys yr Annibynwyr ym Minny Street, Caerdydd), ddweud mai dyna'r gynhadledd fwyaf cofiadwy y bu ef ynddi erioed; ac yn ôl Eluned Morgan, roedd yn werth yr ymdrech a'r gost o fynd yno 'pe i ddim ond clywed y cawr feddyliwr hwnnw Gwynn Jones yn tywallt ei enaid allan fel na thywalltodd erioed o'r blaen'.



***(trwy garedigrwydd y ddiweddar Tegai Roberts)***

Arweiniodd y gynhadledd honno yn y Bermo at sefydlu'r cylchgrawn misol dylanwadol *Y Deyrnas* er hyrwyddo egwyddorion heddychiaeth. Fe'i cyhoeddwyd rhwng 1916 ac 1919, ac roedd ganddo gylchrediad o dros 2,500 o gopïau. Dyma'r cylchgrawn y dywedodd yr Athro W. J. Gruffydd amdano ei fod yn 'un o'r achosion cryfaf na chollodd Cymru ei henaid yn hollol yn nydd y gwallgofrwydd mawr'; ac fe gyfrannodd Eluned ysgrif, 'Sancteiddio'r Aelwydydd', i ail rifyn y cylchgrawn hwnnw, yn Nhachwedd 1916, yn apelio ar i ferched Cymru wneud a allent 'i lefeinio'r wlad â'r egwyddorion [Cristnogol] hynny fuasai'n gwneud rhyfeloedd a chreulonderau o bob math yn bethau amhosibl', gan bwysleisio'r angen i 'egwyddorion y Testament Newydd [gael] eu plannu'n ddwfn yng nghalon pob mam yng Nghymru', fel ei bod hi yn ei thro yn hau 'hadau'r Bywyd' yn ei phlant ym more eu hoes.

Yn ôl Eluned, roedd y Gwladfawyr, 'bob copa walltog' ohonynt, yn gryf eu gwrthwynebiad i'r rhyfel yn erbyn y Boeriaid yn ne Affrica (1899–1902), gan ystyried y Boeriaid yn 'genedl fechan ddewr yn ymladd am famwlad a rhyddid' yn erbyn 'John Bull'. Ond roedd y rhan fwyaf o bobl Cymru o blaid y rhyfel hwnnw, fel y tystia'r cnwd o enwau strydoedd yn ardal Pen-y-lan yng Nghaerdydd sy'n dwyn enwau yn gysylltiedig â Rhyfel y Boer – Ladysmith, Mafeking, Kimberley, Harrismith, Melrose, ac yn y blaen – heb sôn am y ffaith fod rhyddfreintiau Caerdydd a Bangor wedi eu hestyn i Robert Baden-Powell, 'arwr Gwarchae Mafeking' (a sylfaenydd mudiad y Sgowtiaid).

Un wedd ar ramantiaeth Eluned oedd y duedd a oedd ynddi i greu arwyr. Un ohonynt oedd David Lloyd George: 'mae fy edmygedd ohono fel gwleidyddiwr yn ddihysbydd', meddai amdano mewn llythyr yn 1899. Caiff Lloyd George ei ganmol yn fawr gan Eluned Morgan bryd hynny am fynd yn groes i'r farn gyhoeddus a gwrthwynebu Rhyfel y Boer, gan lynu 'yn ddewr a nobl wrth ei Gredo Heddwch'. Ond erbyn y Rhyfel Mawr yr oedd pethau'n wahanol, a Lloyd George bellach yn 'eilun coll' ganddi, wedi iddo dderbyn swydd Gweinidog Arfau'r Llywodraeth yn 1915.

Ond yr oedd gwaeth i ddod! Un o arwyr mwyaf Eluned, a'i mentor llenyddol, oedd Owen M. Edwards, un o arweinwyr amlycaf yr adfywiad diwylliannol a gwladgarol, rhamantaidd a radicalaidd, a welwyd yng Nghymru o'r 1880au ymlaen, a ffigur allweddol yn y gwaith o hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion. Meddai Eluned amdano mewn llythyr yn 1899:

> Efe yw'm Ideal i o bob peth sydd Gymreig, o bob peth sydd bur, o bob peth sydd aruchel, efe yw'm hathraw llenyddol ac wrth ei draed yr hoffwn fyw.

Ond dadleuai O. M. Edwards mai 'rhyfel cyfiawn' o blaid cenhedloedd bychain a rhyddid oedd un Prydain yn erbyn yr Almaen a ddechreuodd yn 1914; ac yn rhifyn Ebrill 1916 o'i gylchgrawn dylanwadol, y '*Cymru Coch*', y rhifyn yn union ar ôl y gynhadledd heddwch yn y Bermo, ymddangosodd ysgrif ganddo a oedd nid yn unig yn galw ar i bawb gefnogi'r Rhyfel Mawr ond a oedd hefyd yn feirniadol iawn o wrthwynebwyr cydwybodol. Archollwyd Eluned. Meddai mewn llythyr yr adeg honno:

> A phwy fyth fuasai'n gallu credu y gallasai ein heulwen a'n harwr ym mhob delfryd dlos droi'n 'recruiting sergeant'? […] Nid oes arnaf gywilydd arddel fy mod wedi colli dagrau chwerw wrth ben ysgrif fy eilun.

A dyna'r Rhyfel Mawr wedi creu 'eilun coll' arall i Eluned.

Aeth Eluned Morgan yn ôl i'r Wladfa ddiwedd 1918, fyth i ddychwelyd i Gymru. Yn ôl un adroddiad papur newydd ar y pryd, roedd hi 'wedi blino ar sŵn a dwndwr militariaeth, a'i henaid yn dyheu am dawelwch y paith pell'. Bu'n athrawes ysgol Sul ar ddosbarth o ferched yn Eglwys Minny Street, ac ysgrifennodd lythyr atynt o Rio de Janeiro, dyddiedig 12 Rhagfyr 1918, yn mynegi ei siom fawr o beidio â gallu treulio Sul arall yn eu cwmni cyn ffarwelio, 'gan ei bod yn annhebyg y bydd i ni fyth eto gyfarfod'; ac yn y llythyr hwnnw mae'n eu hannog

> i roi eich bywyd cyfan i'w wasanaeth [sef i Iesu] ac i'w ogoneddu yn eich bywyd bob dydd. Cofiwch bob amser na allwn ni wneud dim sydd o unrhyw werth heb Iesu. […] Cofiwch hefyd mai gwaed gwerthfawr Iesu Grist a'i galluogodd Ef i faddau ac i anghofio ein pechodau.

Cyn pen dwy flynedd wedi i Eluned ddychwelyd i'r Wladfa, roedd ei 'heilun coll', Owen M. Edwards, yn ei fedd. Cyhoeddodd Eluned ysgrif deyrnged haelfrydig iawn iddo yn *Y Drafod*, papur y Wladfa, yn Rhagfyr 1920. Mor anodd yw dychmygu am Gymru heb 'O.M.', meddai, â meddwl am Gymru heb yr Wyddfa; ond yn ei hysgrif nid yw'n crybwyll ei gefnogaeth i'r Rhyfel Mawr, a fu'n ergyd mor drom iddi. Ac ymhen deng mlynedd, yn 1930, Eluned Morgan oedd yn gyfrifol am gasglu cyfraniadau yn y Wladfa tuag at 'Gronfa Goffa Syr Owen M. Edwards', gan ei alw bryd hynny yn 'un o Gymwynaswyr Mawr ein Cenedl'. Edrych heibio i ymateb O. M. Edwards i'r Rhyfel Mawr a wnaeth Eluned, felly, wrth ei goffáu, a chanolbwyntio ar ei fawredd ac ar ei gariad angerddol at Gymru a'i gwerin bobl; ond o gofio teitl cylchgrawn heddwch 1916, sef *Y Deyrnas*, mae rhyw eirioni yn y ffaith bod Eluned, yn ei hysgrif yn *Y Drafod*, yn disgrifio ymlyniad Owen M. Edwards o'i ieuenctid wrth y ffydd Gristnogol trwy ddweud fod 'O.M.' wedi dysgu'n fore 'egwyddorion mawr y Deyrnas nad yw ei seiliau fyth i siglo'.

---

## Y DIGWYDDIADUR

### RHAGFYR

**Llun, 7 Rhagfyr**
Menter Caerdydd. 'Nadolig Cynaliadwy.' Sesiwn drafod a gweithdy ar y cyd â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Am 1.30pm dros Zoom. Croeso cynnes i bawb. I gofrestru, ebostiwch rachel@mentercaerdydd.cymru

**Iau, 10 Rhagfyr**
Menter Caerdydd. Coginio gyda Nerys Howell – ryseitiau tymhorol melys. Am 3.00pm dros Zoom. Croeso cynnes i bawb. I gofrestru, ebostiwch rachel@mentercaerdydd.cymru

**Llun, 14 Rhagfyr**
Sgwrs y Mis (Menter Caerdydd). 'Traddodiadau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd yng Nghymru.' Bydd Beti George yn cadeirio sgwrs rhwng yr Athro Martin Johnes (Prifysgol Abertawe) a Fflur Morse a Mared McAleavey (Amgueddfa Cymru). Am 7.30pm dros Zoom. Croeso cynnes i bawb. I gofrestru, ebostiwch rachel@mentercaerdydd.cymru

**Mawrth, 15 Rhagfyr**
Cymrodorion y Barri. Noson gerddorol Nadoligaidd ei naws yng nghwmni Mared Furnham. Am 7.30pm yn rhithiol. Croeso cynnes i bawb. I gofrestru, cysylltwch ag Eiry Palfrey (eirypalfrey@gmail.com).

**Iau, 17 Rhagfyr**
Merched y Wawr, Cangen y Felin. Adloniant Nadolig gan Trystan Francis ac Owen Saer. Am 7.30pm dros Zoom. I gofrestru, ebostiwch Eiry Davies (eiry.davies@hotmail.co.uk).

**Iau, 17 Rhagfyr**
Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg. Cyngerdd Nadolig Elusennol. Noson o gerddoriaeth a darlleniadau tymhorol yng nghwmni Arfon Haines Davies, Ynyr Roberts, Geraint Cynan, Côr CF1, y Gerddorfa Ukulele, a rhai o gerddorion talentog ein hysgolion uwchradd. Pris: £3 y sgrin. Yr elw at yr hosbis i blant, Tŷ Hafan. I gofrestru, ewch i wefan mentercaerdydd.cymru

### IONAWR

**Gwener, 8 Ionawr**
Cymrodorion Caerdydd. 'Beth yw Cymro/Cymraes?' Cyflwyniad gan Alwyn Evans, Llywydd y Cymrodorion ar gyfer 2020–21. Am 7.30pm dros Zoom. Croeso cynnes i bawb. I dderbyn dolen i ymuno dros Zoom, anfonwch ebost at y Parch. Dyfrig Lloyd: dyfriglloyd@hotmail.com

**Gwener, 15 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro Peredur Lynch (Bangor) ar y testun 'Rhai o Barodïau D. Tecwyn Lloyd'. Am 7.00pm dros Zoom. Croeso cynnes i bawb. I gofrestru, cysylltwch â'r Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**I anfon gwybodaeth i'r Digwyddiadur gweler manylion ar dud. 2**

---

**Atebion Y Cwis Nadolig (tud. 28)**

1 Ebenezer
2 Heilige Nacht
3 T Llew Jones
4 Richard Attenborough (Brawd David)
5 Ffoi i'r Aifft
6 Kevin
7 Bing Crosby
8 The Lion, the Witch and theWardrobe
9 Gwyrdd
10 5 modrwy aur.

# Merched y Wawr Caerdydd



Gwenan Gibbard oedd y siaradwraig wadd ym mis Hydref ac unwaith eto mor braf oedd croeswau criw niferus o'n haelodau ar Zoom i wrando ar gyflwyniad hudolus yr artist gwerin amryddawn. Soniodd Gwenan am yr amrywiol brosiectau difyr y bu'n ymwneud â nhw yn ddiweddar gan gynnwys *Merched y Chwyldro* sy'n dathlu cyfraniad merched y 60au a'r 70au i'r sîn gerddorol Gymraeg ac, yn fwy diweddar, y grŵp *Pedair* a berfformiodd sawl cân hyfryd yn rhithiol yn ystod y Clo a Gŵyl AmGen.

Cyflwynodd Gwenan ystod o ganeuon gwerin a cherdd dant i gyfeiliant y delyn - yn gyfuniad o'r hen a'r newydd, y llon a'r lleddf. Wrth durio i archif gerddoriaeth draddodiadol Dr Meredydd Evans a Phillys Kinney fel rhan o'i Hysgoloriaeth Ddoethurol, atgyfododd hen ganeuon traddodiadol a nododd effeithiolrwydd asiad alaw a geiriau syml. Clywsom ganeuon o wahanol ffynonellau gan gynnwys baledi, caneuon hiraeth, shantis môr a chân ddoniol am gyrraedd y stesion yn hwyr a cholli'r trên. Ond yn ogystal ag edrych yn ôl i'r gorffennol, cyflwynodd Gwenan hefyd ganeuon â thinc mwy cyfoes fel y gân boblogaidd 'Y Pedwar Gwynt' a ganwyd gan Eirlys Parry yn y chwedegau. Hyfryd hefyd oedd 'A ddoi di draw i draeth Porth Madryn?', sef trefniant gan Gwenan o eiriau'r bardd Gwion Hallam ar alaw draddodiadol o'r Ariannin ac a ysbrydolwyd gan ei hymweliad â'r Wladfa.

Mae'n syndod sut y mae ein caneuon gwerin yn crisialu mor gelfydd ein hiraeth a'n gobeithion ac mor addas oedd gorffen y noson gyda chyflwyniad calonnog o 'Canu wnaf a bod yn llawen' â'i neges obeithiol i ni i gyd wrth i ni wynebu heriau'r cyfnod presennol.

### Cofiwch Dryweryn – atgofion y plant

Er mor gyfarwydd yw murlun Cofiwch Dryweryn beintiwyd yn wreiddiol gan y diweddar Meic Stephens, gwae ni anghofio yr hanes tu ôl i hynny. Hanes boddi pentre Capel Celyn. Dyna oedd ein profiad wrth i ni wrando ar Gwyn Roberts yn disgrifio y cyfnod hwnnw o berspectif plant Ysgol Capel Celyn. Mam Gwyn oedd Prifathrawes yr ysgol pan gaewyd y drysau, dymchwel a boddi'r ysgol fach honno ynghyd â chymuned gyfan. Fe'n hatgoffwyd o'r gormes oedd wrth wraidd hynny: corfforaeth Lerpwl yn twyllo drwy roi'r argraff mai ar gyfer dŵr yfed y byddai'r gronfa ond deall wedyn eu bod yn gwerthu'r dŵr i ddiwydiant.



Drwy luniau o'r plant a chreiriau o'r ysgol, a ffilm o'r brotest fonheddig yn Lerpwl gwelsom o flaen ein llygad ddiflaniad cymuned a hynny drwy lygad plentyn. Cynhyrfodd hynny ni gyda'n llywydd yn codi cwestiwn pwysig ynglŷn â phwysigrwydd olrhain effaith y math hwn o brofiad (cau ysgol hyd yn oed) ar blant dros amser.

Diolch bod teulu Gwyn wedi cadw'r hanes a bod creiriau pwysig fel allwedd a chloch yr ysgol bellach yn Sain Ffagan a thrwy hynny gobeithio yn rhan o hanes a drosglwyddir o genhedlaeth i genhedlaeth.

Credai mam Gwyn "na welwn ni fyth Dryweryn arall oherwydd bod y genedl wedi deffro" - un ffordd o sicrhau hynny yw gofalu na fydd hanes cymuned a phlant Capel Celyn yn mynd yn angof.

## CYMRODORION CAERDYDD RHAGLEN Y GWANWYN 2021

**Ni chyfyngir y cyfarfodydd i aelodau yn unig**

Cynhelir ein cyfarfodydd, oni nodir yn wahanol, ar Zoom. Caiff aelodau'r gymdeithas eu hysbysu o'r ddolen angenrheidiol gan Weinyddwr y Wefan ymlaen llaw. Mae croeso i unrhyw aelod o'r cyhoedd wneud cais am ymuno mewn cyfarfod ar Zoom drwy anfon at Dyfrig Lloyd am y ddolen drwy ebost: dyfriglloyd@hotmail.com

Bydd pob cyfarfod yn dechau am 7.30 y.h.

8 Ionawr — **Beth yw Cymro/Cymraes?**
Cyflwyniad gan y Llywydd, Alwyn Evans

5 Chwefror — **Y Gair a'r Genedl: Dathlu Canmlwyddiant R. Tudur Jones (1921-1998)**
Yr Athro Densil Morgan

12 Mawrth — **Wil Sam a'r busnes sgwennu 'ma.**
Alun Ffred Jones

2 Ebrill — **Cymdeithas Pêl-droed Cymru a'r Gymraeg**
Ian Gwyn Hughes

7 Mai — **O.M.Edwards: Caerdydd, Cymru a'r Cymrodorion**
Yr Athro Hazel Walford Davies

Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd,
Gwynn Matthews (029 20891802)

# Pobol y Rhigwm

Croeso, rigymwyr. Y dasg y tro diwethaf (38) oedd limrig yn cynnwys yr ymadrodd 'ar ôl yr etholiad'. Roedd hawl defnyddio'r ymadrodd ar ddechrau llinell neu yn y brifodl. Daeth cannoedd o gynigion i law, ond dim ond lle i gyhoeddi tri o'r goreuon sydd y tro hwn. Dyma nhw:

Aeth Donald ar ôl yr etholiad
I'r llys i herio'r canlyniad;
Ond colli sy raid,
Cer rhagot i'r llaid,
Paid dychwel yw'n cri a'n deisyfiad.
*Democrat*

Mae'n gynnar i ganu galarnad,
Ni ildiaf ar ôl yr etholiad;
Gan fod cymint o dwyll,
Gallwn golli fy mhwyll
A Duw helpo wlad heb arweiniad.
*Brig y Don*

Ar ôl yr etholiad cawn ddawnsio;
Naw deg yn y cant 'di pleidleisio!
O deled mis Mai
Â'r freuddwyd ddi-fai
I'r rhai a fu wrthi'n canfasio.
*Llafurwr (gydag ll fach) Gobeithiol*

Eithaf gwastad fu safon y gystadleuaeth. Y limrig â'r mydr sicraf sy'n mynd â hi, sef eiddo Democrat. Mae'n lleisio barn unrhyw un â synnwyr rhwng ei glustiau, ac yn amserol iawn. Gwobrwyer **Democrat**, felly.

**Enillydd tasg rhif 38 yw**
**Peter Griffiths, Pentyrch**

**Y dasg nesaf i'r rhigymwyr (39) yw Triban Beddargraff i 2020. Bydd llawer yn falch o weld diwedd y flwyddyn yn dod, a brechlyn i'n gwaredu'n fuan, gobeithio.**

**Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a blwyddyn newydd iach i'r rhigymwyr a'r darllenwyr oll.**

Anfonwch eich cynigion yn ôl yr arfer at bryan.val.james@gmail.com erbyn **20 Ionawr 2021.** [Sylwer ar y dyddiad cau gan fod hwn yn rhifyn dwbl Rhagfyr/Ionawr.]

*Emyr Davies*

Yn anffodus, fe gyrhaeddodd y ddau limrig yma yn rhy hwyr i'r gystadleuaeth.
Er nad ydynt yn rhan o'r feirniadaeth maent yn cyfrannu at hwyl y golofn. Felly diolch i'r ddau – a gobeithio na fydd *Collwr Gwael* yn mynd i gyfraith!

Ar ôl yr etholiad - mae panig,
Yr unben yn herio'n ddramatig,
A Biden ar dân
Isio ateb, myn diân,
A hithau yn ddydd y pandemig!
*Llais*

Ar ôl yr etholiad, ffrwydro!
Joe Biden, wna' i ddim ildio,
Ac yma ar *green*
Y cwrs golff dwi'n flin
A'r Cadi 'di ymddiswyddo.
*Collwr Gwael*

# Merched y Wawr
# Y Felin a Bro Radur

Nos Iau 19 Tachwedd daeth merched Cangen y Felin a chriw Cangen Radur at ei gilydd y tro hwn i ddysgu am y grefft o osod blodau. Braf oedd gweld y sgrîn Zoom yn llawn o wynebau eiddgar a pharod am y wledd.

Ann Mears oedd yn ein harwain. Mae Ann yn arbenigo yn y grefft hon ac mae hi'n gelfydd iawn. Fel pob meistr wrth ei waith mae'r gallu ganddi i wneud i bopeth ymddangos mor hawdd.

Aeth ati i ddangos sut i drefnu tri gosodiad amserol iawn. Soniodd ei bod wrth ei bodd yn crwydro yn y goedwig er mwyn casglu pob math o frigau mawr a mân a deiliach golau a thywyll o amrywiol siapau. Dechreuodd trwy osod y gwyrddni mewn 'oasis' i greu cefndir cyfoethog da i'r gosodiadau, a'r gelfyddyd wrth gwrs yw sut mae ychwanegu diddordeb a lliw at y rheiny. Tra'n clebran yn naturiol a di-lol am bopeth dan haul dangosodd Ann yr hyn sy'n bosib. Ychwanegodd flodau o bob math. Dwedodd y gallech ddefnyddio unrhyw flodau sy'n apelio atoch a gwelsom ganddi yr Hydrangea, yr Hybiscus, Eringium ac eraill ynghyd â moch coed, orennau wedi eu sychu, brigau sinamon ac afalau cochion hyd yn oed.



Ar gyfer y Nadolig, mae Ann yn draddodiadol ei dewis o liwiau, sef coch i gynrychioli gwaed Crist, gwyrdd y bywyd tragwyddol a phurdeb y gwyn.

Wrth greu'r gosodiadau trawiadol hyn, gwelsom bob cam bach syml yn ei dro yn datblygu i fod yn gampwaith gorffenedig hardd. Dyna'r her i ni ferched eto eleni i fod yn greadigol gyda phlanhigion er mwyn adduro'n tai ar gyfer y Nadolig.

Roedd hon yn noson bleserus dros ben.

*****************************

Tro nesa : 17 Rhagfyr Noson o Gerddoriaeth Nadoligaidd gan Trystan Francis ac Owen Saer. Croeso i unrhyw rai sydd am ymuno. Cewch wybodaeth oddi wrth Eiry: 07855666242 neu eiry.davies@hotmail.co.uk

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Brecwast Merched**

'Rydym bellach wedi dechrau darllen llyfr newydd i'w drafod yn ein sesiynau misol. Teitl y llyfr yw *Gentle and Lowly* gan Dane Ortlund sy'n ddyfyniad o eiriau cyfarwydd Iesu Grist amdano'i hun ym mhennod 11 o efengyl Mathew pennod 11 "Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystra i chwi. Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch gennyf, oherwydd addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon, ac fe gewch orffwystra i'ch eneidiau." *The Heart of Christ for Sinners and Sufferers* yw'r is-deitl a'r hyn a geisia'r llyfr ei gyfleu yw maint cariad a thosturi Iesu Grist tuag atom a sut y mae E'n gallu bod gyda ni ym mhob amgylchiad. Ar ddechrau pob pennod ceir dyfyniad o'r Ysgrythur sy'n datblygu a chyfoethogi'r thema ganolog. Cawsom drafodaeth dda ar y ddwy bennod gyntaf ac edrychwn ymlaen at gael astudio gweddill y gyfrol gyda'n gilydd.

Gwelwn eisiau mwynhau brecwast blasus gyda'n gilydd ond gwerthfarogwn y sesiynau'n fawr.

**Paned a Sgwrs**

Un o'n haelodau, Rhian Evans, oedd ein siaradwr yn ein cyfarfod diwethaf. Mae Rhian yn gweithio rhan amser i fenter Gristnogol o'r enw 'FESTIVE'. Bwriad y fenter hon yw cefnogi, annog a chalonogi Cristnogion ifanc y colegau addysg bellach a'r chweched dosbarth mewn ysgolion. Darparant adnoddau i'w cynorthwyo i rannu eu ffydd yn Iesu Grist gyda'u cyd-fyfyrwyr.

Fel y gwyddom mae'r cyfnod yma wedi dod â'i broblemau a'i bwysau ei hun wrth i'n pobl ifanc yn aml fod ar eu pennau'u hunain. Mae'r fenter wedi gallu cynnal sesiwn ar y we a chadw mewn cysylltiad drwy e-bost neu neges destun.

Roedd yn fuddiol iawn i glywed gan Rhian am waith y fenter hon a chofiwn amdani yn y gwaith.

**Youtube**

Mae modd gweld cyfarfodydd bore Sul ynghyd â rhai storïau plant ac esboniadau Wyn James ar rai o'n hemynau drwy fynd i wefan Cwmpawd.org.

## EGLWYS DEWI SANT

**Eglwys Dewi Sant ar yr Aelwyd**

Y ddau wasanaeth yn y bore a chyda'r hwyr trwy bodlediad, yw'r prif wasanaethau ar y Sul o hyd er bod un gwasanaeth yn yr eglwys ei hun pan na fo cyfnod clo. Yn ystod mis Tachwedd, roedden yng nghyfnod Suliau'r Deyrnas gan ddathlu Gŵyl yr Holl Saint ar Sul cynta'r mis a chael Gweithred o Gofio ar ddiwedd y gwasanaeth Cymun ar ail Sul y mis gan gadw dwy funud o dawelwch i gofio'r rhai a fu farw o ganlyniad i ryfel.

**Noson Gaws a Gwin**

Ymunodd nifer yn y Noson Gaws a Gwin nos Iau 5 Tachwedd a'r bwriad yw cynnal rhywbeth cymdeithasol yn fisol tros y Zoom. Cwis fydd hi fis nesa'.

**Coffi a Chlonc**

Diolch eto i Siân Eleri Thomas am gynnal ac arwain bore Coffi a Chlonc yn rhithiol tros Zoom ar gyfer dysgwyr Cymraeg ac eraill, fore Sadwrn 21 Tachwedd.

**Y Festri Basg**

Gohiriwyd Y Festri Basg eleni oherwydd y Cyfnod Clo. Gofynnodd Yr Eglwys yng Nghymru i eglwysi gynnal y cyfarfod blynyddol hwn erbyn diwedd Tachwedd a dyna a wnaed â hynny yn rhithiol, nos Lun 25 Tachwedd tros Zoom â'r Adroddiad Blynyddol wedi'i ddosbarthu wythnos ynghynt.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â theulu Eilonwy Griffiths yn eu profedigaeth.

**Symposiwm Beibl 1620**

Yn ystod mis Tachwedd, trefnodd Y Llyfrgell Genedlaethol gyfres o ddarlithoedd i gofio cyhoeddi Beibl 1620. I agor y gyfres, aeth E. Gwynn Matthews â ni yn ôl ychydig cyn hynny at hanes y cyfieithwyr a fu wrthi, fesul cam, rhwng 1567 ac 1620 yn creu'r cyfieithiad 'traddodiadol' o'r Beibl Cymraeg gan ddwyn sylw at gyfraniad arloeswyr fel William Salesbury a'r Esgob William Morgan.

Bu'r Dr Dylan Foster Evans yn mesur cyfraniad un o ysgolheigion pennaf Cymru, y Dr John Davies, Rheithor Mallwyd trwy ei olygyddiaeth, i gyhoeddi'r Beibl Cymraeg a ddaeth o'r Wasg yn 1620, o ran glendid a chywirdeb iaith.

Bu'r Dr Eryn White wedyn yn olrhain hanes poblogrwydd 'Beibl Peter Williams' a gyhoeddwyd 250 mlynedd yn ôl i eleni, y cyntaf i'w gyhoeddi yng Nghymru yn hytrach nag yn Llundain. Bu tros 30 argraffiad ohono rhwng 1770 ac 1900.

Yn y bedwaredd ddarlith, canolbwyntiodd Yr Athro E. Wyn James yn arbennig ar hanes Thomas Charles a Mary Jones a sefydlu Cymdeithas y Beibl ac ar gynnwrf cynhyrchu a lledaenu Beiblau yn y 19eg ganrif yng Nghymru a thu hwnt.

## EGLWYS Y CRWYS

Llongyfarchiadau cynnes i Iwan Gruffydd a Gemma Clarke ar eu dyweddiad. Dymuniadau gorau a phob bendith.

Cafwyd cyfarfod rhithiol hynod ddiddorol o'r Gymdeithas yng nghwmni y deietegydd Gwawr James – agoriad llygaid i lawer ohonom a dysgom lawer. Byddwn i gyd yn iach ar ôl y Nadolig!

Yn ystod tymor yr Adfent cynhelir Myfyrdod rhithiol o dan arweiniad y Gweinidog bob nos Fercher am 6.00 o'r gloch. Croeso mawr i bawb ymuno.

Yn ystod mis Rhagfyr cynhelir gwasanaethau rhithiol o dan arweiniad Y Gweinidog gydag Oedfa Gymun ar y 6ed; y Parchg Dafydd Andrew Jones ar y 13eg, ac yna gwasanaethau Nadolig yr Ysgol Sul a'r Gymdeithas ar yr 20fed a'r 27ain.

Ym mis Ionawr cynhelir Oedfa Gymun ar 3 Ionawr o dan arweiniad y Parchg Glyn Tudwal Jones a bydd gwasanaethau gweddill y mis o dan ofal y Parchg Dafydd Andrew Jones, Y Gweinidog, y Parchg Lona Roberts a'r Parchg Aled Edwards. Ar hyn o bryd nid yw'n sicr a fydd y capel wedi'i ail-agor ar gyfer y gwasanaethau.

Hoffem ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda, a gobeithio Blwyddyn Newydd Well, i holl aelodau'r Crwys ac i bawb o ddarllenwyr Y Dinesydd. Diolch i'r rhai sydd wedi sicrhau ein bod wedi derbyn copïau yn ystod y cyfnod anodd yn 2020.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

cyswllt: carys@caerdelyn.com

Blwyddyn Newydd Dda! Na, dw i ddim wedi drysu – mae Sul cyntaf Adfent yn ddechrau blwyddyn newydd i'r ffyddloniaid Catholig.

Mae cyfnod yr Adfent, neu'r Dyfodiad yn litwrgaidd, yn ein gosod ni Gristnogion mewn gwrthgyferbyniad ag addurniadau'r Nadolig sydd eisoes i'w gweld ar hyd ein strydoedd ac yn ein trefi. Fydd dim blodau nac addurniadau yn yr eglwys tan Noswyl Nadolig, ond yn yr wythnosau o 'ddisgwyl', byddwn yn goleuo canhwyllau bob Sul i oleuo'n ffordd i'r Geni. Mae'n gyfnod o baratoi – yn ysbrydol yn ogystal ag yn ymarferol.

Eleni, yn fwy nag erioed, mae angen golau a gobaith neges y Geni ar ein byd. Felly croesawn y goleuadau Nadolig wrth i ni baratoi a disgwyl.

**Trysor yr Esgob Edwin**

Cafodd Esgob Regan anrheg arbennig iawn yn ddiweddar: dyma'i stori.

"Wrth ddweud yr Offeren ar Zoom, dwi'n cael gwefr hollol drydanol! Y rheswm yw bowlen fach arian, yr un faint â chwpan wy, a dderbyniais yn anrheg ar fy mhenblwydd Aur fel offeiriad.

Bowlen 'lavabo' yw hi, y mae'r offeiriad yn golchi ei fysedd ynddi yn ystod yr Offeren. Ond sut mae'r fowlen fach mor arbennig? Achos cafodd hi ei dylunio er mwyn dathlu'r Offeren yn gyfrinachol, yn ystod y cyfnod pan gafodd yr Offeren ei gwahardd yn y wlad hon. Gwnaethpwyd y fowlen rhwng 1630 a 1680, pan roedd Catholigion yn arfer cynnal yr Offeren mewn tai yng nghefn gwlad, ac, wrth gwrs, yn torri'r gyfraith wrth wneud hynny, yn peryglu eu bywydau a'u heiddo.

Wrth i 'mysedd gwrdd â'r fowlen fach yn ystod yr Offeren nawr, gartre dan amgylchiadau mor wahanol, dwi'n meddwl am y bysedd sy wedi cyffwrdd â hi mewn amserau mwy anodd a pheryglus fyth. Petai'r fowlen fach ond yn gallu siarad!

Diolch i Dduw, mae'r hen gasineb rhwng yr Eglwysi wedi hen ddiflannu erbyn hyn, ond mae'n dda cofio am ffydd a dewrder y bobl aeth o'n blaenau ni.

Dywedodd Iesu 'O Dad … rwy'n gweddïo ar iddynt oll fod yn un … er mwyn i'r byd gredu mai tydi a'm hanfonodd i.' Ioan 17, 21."

*Edwin Regan, Esgob Emeritws*

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Trefn mis Rhagfyr:**

6 – Oedfa Gymun - Delwyn Siôn (am 10:30 a.m.)
13 – 9 Llith a Charol (am 5:00 p.m.)
20 – Nadolig yr Ysgol Sul (Rhithiol)
25 – Bore'r Nadolig (Rhithiol)
27 – Dim oedfa

"*Bendigedig wyt Ti sy'n ysbrydoli'r arloeswyr*
*I greu llwyfannau a chyfryngau*
*I'n cysylltu a rhannu meddyliau*"
*Euryn Ogwen - "Salm i Dechnoleg"*

Dyfyniad sydd yn crynhoi'n gwerthfawrogiad o ddulliau amgen o rannu neges y Nadolig eleni, a sydd, ers mis Mawrth, wedi'n galluogi i gadw cyswllt â'n gilydd.

Trwy'r gwefannau amrywiol, mae modd darllen newyddion sydd ym mhapurau dyddiol gwledydd eraill, a thros gyfnod y Nadolig fedrwn ni ddim osgoi troi ein golygon tua'r Dwyrain Canol.

Mae'r rhaniadau ymysg y gwahanol lwythau yng nghyfnod yr Hen Destament a'r Newydd yr un mor amlwg yno heddiw, ond yn cael eu dylanwadu i raddau helaeth gan waddol cynllun heddwch Arlywydd o gyfandir arall sydd ar fin gadael (yn anfoddog) ei swydd pan ddaw'r flwyddyn newydd.

Bu i'r Archesgob Desmond Tutu, mewn erthygl yn y *Jerusalem Post*, gymharu'r polisiau sydd yn cael eu meithrin gan yr Israeliaid yn erbyn y Palesteiniaid yn gyfystyr â'r polisïau apartheid a fabwysiadwyd yn Ne Affrica,:-

"*Mae'r rheini ohonom sy'n anwybyddu anghyfiawnder yr un mor euog a hyrwyddwyr yr anghyfiawnder. Os ydym yn aros yn niwtral mewn sefyllfa o anghyfiawnder, 'rydym wedi dewis ochri a'r gormeswr.*

*'Does dim ots ym mhle yr ydym yn byw neu lle yr addolwn, 'rydym yn aelodau o un teulu, teulu dyn, teulu Duw.*"

Cofiwn felly, wrth osod ein cardiau Nadolig ar y pentan eleni, mai nid dyna fel mae pethau ym Methlehem Effrata go iawn!

Diolch i'r cymwynaswyr am sicrhau y bydd neges Nadolig ein Bethlehem ni mor daer ag erioed serch y gofid sy'n llethu'n gwlad a'n byd.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Well pob Bethlehem.

## TABERNACL, YR AIS

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Manon a Rhys ar enedigaeth Esther Sian. Ganwyd hi ar ddydd penblwydd Owen John Thomas, ei thad-cu ar 3 Hydref. Edrychwn ymlaen i'w gweld yn y Tabernacl, pan fydd hynny'n bosibl.

Dathlwn hefyd enedigaeth Siwan Esyllt, merch i Angharad a Huw, bydd ei theulu yn Arfon a Cheredigion yn falch edrych ymlaen at bob cyfle i ddod i Gaerdydd a mwynhau gweld yr ieuengaf o'u teulu yn tyfu.

**Mudiad y Chwiorydd/ Cymdeithas P'nawn Iau**

Ar ddechrau Tachwedd bob blwyddyn trefnir Oedfa Dydd Gweddi Chwiorydd Bedyddwyr y Byd. Dyddiad y digwyddiad eleni oedd Tachwedd 2ail. Oherwydd y sefyllfa gyda'r pandemig ni fu yn bosibl i ni gyfarfod yn y Tabernacl ar y pnawn hwnnw. Mae'r oedfa ar gael ar wefan Undeb Bedyddwyr Cymru.

**Gwau Blanced Gobaith a Heddwch, Amgueddfa Genedlaethol y Diwydiant Gwlân**

Mae 50 o sgwariau yn barod wedi'u gwau yn lliwiau'r enfys ar hyn o bryd a rhai ohonynt eisioes wedi cael eu hanfon i Drefach, Felindre.

**Cyhoeddi llyfr newydd: *Taith drwy'r Hen Destament***

Yn ystod mis Hydref cyhoeddwyd llyfr y Parchg D. Hugh Matthews, sef y myfyrdodau a ddosbarthwyd yn ein plith yn ystod y flwyddyn hon. Ceir ynddi 11 o fyfyrdodau nas gwelwyd hefyd. Yn drist iawn, daeth y newyddion ddiwedd Tachwedd am farwolaeth Dr Matthews. Bydd teyrnged iddo yn rhifyn nesaf *Y Dinesydd.*

**Y defnydd o'r adeilad a'r ddarpariaeth ar y Suliau**

Rhys ab Owen a Dafydd Huw oedd yn arwain oedfa'r cofio ar Dachwedd 15fed, gyda'r Parchg Lona Roberts yn pregethu y Sul ganlynol. Y gweinidog oedd wrth y llyw ar Sul ola'r mis.

**Ymgeisydd Etholiad y Senedd 2021**

Llongyfarchwn Owain Williams a Rhys ab Owen ar gael eu dewis i sefyll yn Etholiad y Senedd 2021, a hynny yn yr un rhanbarth. Mae'n gamp sylweddol i dderbyn enwebiad ac yna gael eich dewis i unrhyw blaid, ac os etholir y ddau yma, gwyddom bydd y Senedd a Chymru yn elwa.




## SALEM, TREGANNA

**Oedfaon Tachwedd**

Ar ol y cyfnod clo rydym wedi ail-agor Salem bob bore Sul, gan hefyd gynnal oedfa ar Zoom cyn hynny. Braf yw gweld cymaint yn ymuno!

**Cwisiau**

Cawsom gwis y bobl ifanc ar Zoom gyda'n cwisfeistr Dewi Rhisiart ar nos Wener 13 Tachwedd, noson hwyliog! Ar 24 Tachwedd cawsom gwis i'r oedolion gydag Aled Wyn yn cadw trefn. Croeso i chi ymuno gan holi Evan am y linc!

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr â theulu Lynn Davies, aelod hoffus a ffyddlon yn Salem, gan feddwl yn arbennig am Marian ac Emyr a Nia a'u teuluoedd. Cydymdeimlwn yn fawr â Huw Jones a'r teulu wrth golli ei dad, ac fe gydymdeimlwn hefyd yn fawr â Mari Gooberman wrth golli ei mam. Rydych yn ein meddyliau ar hyn o bryd.

## EGLWYS MINNY STREET

Dros dymor yr Adfent, bydd cyfarfodydd bore Mercher yn y festri, gan ddechrau ar 2 Rhagfyr, yn gyfres arbennig o gyfarfodydd yr Adfent. Yn ychwanegol at ein trefn newydd o gyfarfodydd ar fore Sul a dydd Mercher, cynhelir oedfa noswyl Nadolig yn y Deml Heddwch ac oedfa bore'r Nadolig ym Minny Street. Byddwn fel arfer yn ymuno â chyfeillion Eglwys y Crwys ar fore Nadolig ond, gyda'r cyfyngu ar y niferoedd, mae'r ddwy eglwys yn gytûn na fyddai cydaddoli yn ymarferol eleni. Bydd y Sul cyn y Nadolig, 20 Rhagfyr, yn ddydd o ddathlu'r Nadolig i'r eglwys gyda chyflwyniad Nadolig yn yr oedfa foreol, dathliad Nadolig yr Ysgol Sul dros Zoom yn ystod y dydd a chyflwyniad Ar Lafar ac ar Gân, eto ar Zoom, yn yr hwyr. Bydd oedfa 27 Rhagfyr, fel oedfaon Suliau olaf Tachwedd, dan ofal cyd-aelodau.

Oherwydd y cyfyngu ar niferoedd yn sgil y pandemig, mae hi'n ofynnol rhoi gwybod ymlaen llaw er mwyn cael mynychu oedfaon.

www.minnystreet.org @MinnyStreet

## EBENESER

**Cydymdeimlad**

Tristwch mawr i ni fel eglwys oedd clywed am farwolaeth Alwyn Williams, Penarth, ddydd Sul 8 Tachwedd, yn Holm Towers. Cydymdeimlwn yn fawr iawn gydag Elisabeth yn ei cholled a'i phrofedigaeth lem a gweddïwn y bydd yr Arglwydd yn ei nerthu a'i chynnal.

**Cwis Mawr Tearfund**

Ar Nos Sadwrn 14 Tachwedd ymunodd criw da i ymryson yng nghwis mawr Tearfund. Pris mynediad oedd £5 neu fwy fel cyfraniad i waith Tearfund. Ymunodd criw ohonom o Ebeneser fel tîm Sêr Ebeneser. Crëwyd grŵp Watts App i ni gadw cysylltiad fel tîm a chynnig atebion i'r cwestiynau. Cynhaliwyd y cwis ar Zoom drefnwyd gan Rhys Llwyd, gweinidog Caersalem, Caernarfon. Roedd chwe rownd ar Hanes, Chwaraeon, Byd Natur, Daearyddiaeth, Cerddoriaeth a Bwyd a Diod. Cafwyd tipyn o hwyl yn ceisio ateb un neu ddau o'r cwestiynau. Cyfrannwyd tua £450 ar y noson, ond roedd cyfle i gyfrannu am ychydig ddyddiau wedyn. Ar ôl ymdrech lew daeth Sêr Ebeneser yn drydydd. Wel, dyna ni, fedrwn ni ddim ennill bob tro am wn i!! Diolch i Carys Mair Jones am gydlynu'r tîm.

**Cleifion**

Mae nifer o aelodau wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar. Cofiown am ein holl aelodau - sy'n teimlo'n isel oherwydd eu bod yn gaeth i'w cartrefi - yn gynnes iawn. Gweddïwn y bydd yr Arglwydd yn gymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder.

**Llongyfarchiadau...**

...mawr iawn i Rachel Jones, Ystum Taf, ar ennill gradd M.Sc., mewn nyrsio yn ddiweddar.

## BETHEL, RHIWBEINA

Bydd y capel yn agor am yr ail dro ers dechrau'r pandemig ar 29 Tachwedd pan fydd gwasanaeth cymun yng ngofal ein gweinidog Y Parch. Evan Morgan. Cynhelir gwasanaeth cymun arall ar 13 Rhagfyr eto dan arweiniad ein gweinidog. Bydd y gwasanaethau hyn am 11 y bore. Mae'r gwasanaethau Zoom wedi parhau bob bore Sul am 10.15. Ond ar 13 Rhagfyr bydd yr amser yn newid i 6 yr hwyr pan gawn fwynhau Gwasanaeth Goleuni. Ar fore Nadolig cynhelir gwasanaeth arbennig ar Zoom am 9.30 y bore. Mae wedi bod yn gymorth mawr i ni ar fore Sul yn y cyfnod anodd hwn i fedru cyfarch ein cyd-addolwyr o Fethel ac o Salem.

Ar 24 Tachwedd cynhaliwyd Bore Coffi ar Zoom. Roedd yn gyfle gwych i gyfnewid newyddion a syniadau.

Gobeithiwn gynnal dau wasanaeth byw yn y capel yn ystod mis Ionawr ar y 10fed a'r 24ydd ond bydd hyn wrth gwrs yn dibynnu ar reolau'r Llywodraeth ar y pryd.

Cyfarchion y Tymor i bawb!

## BETHEL, PENARTH

Anfonwn ein dymuniadau gorau at Dr Harri Davies, un o blant yr eglwys ar un adeg, sy bellach yn feddyg mewn ysbyty yn Ne Cymru; mae Harri yn gwella o gael heintiad COVID-19 yn rhinwedd ei waith.

Hefyd, cofiwn am Ceris (mam Harri) a'r teulu sy'n dyheu am weld diwedd i'r gwaith trwsio ar eu cartref newydd, hyn eto yn sgil-effaith y firws gan beri oedi yn y broses o sicrhau deunydd.

Dros fis Tachwedd buom yn llwyr ddibynnol ar gyfrwng Zoom. Dyma'r lle i gydnabod yn ddiolchgar wasanaeth ein tywysydd Owain Rhys ar hyd y ffordd. Diolchwn hefyd i'n gweinidog am ei arweiniad ym mhob oedfa. Yn un o'r oedfaon, lle cafwyd myfyrdod ar 'aros a disgwyl'

gyda golwg ar dymor Yr Adfent, cawsom gyfle i fyfyrio uwchben carol newydd, Carol Yr Adfent, gan ein cyfaill Euryn Ogwen. (gweler isod)

Rydym yn hen gyfarwydd, gyda diolch bob tro, â doniau barddonol Euryn, ond yn ddiweddar daeth ei ddoniau dadansoddi data ystadegol i'r golwg. Bu Euryn yn cyfrif y niferoedd sy wedi bod yn cysylltu gyda Bethel a'r Tabernacl trwy oedfaon Zoom a Gweplyfr (Facebook). Yn fras y canlyniad yw bod mwy, sylweddol o fwy, yn cyd-addoli'n ddigidol nag sy'n cyd-addoli yn y cnawd, hynny yw, trwy fynychu oedfa os yw hynny'n hwylus a phosibl. Hefyd, mae'r niferoedd uchel hyn yn fwy na'r cynulledfaoedd CYN dyfod COVID -19. A oes neges(euon) yma ar gyfer y dyfodol? Mwy ar hyn y tro nesaf.

Ar ddyddiad llunio'r nodyn hwn (25 Tachwedd) rydym yn edrych ymlaen at ddathlu dechrau Tymor Yr Adfent (29 Tachwedd ) trwy gynnal oedfa garolau mewn ceir ar faes parcio Ysgol Gynradd Penygarth.

**CAROL ADFENT (Tôn – Schubert)**

Yn seiliedig ar 2 Pedr 3, 15 – Dylech chi weld fod amynedd yr Arglwydd yn rhoi cyfle i chi gael eich achub……

Clywch glychau o'r pellter, mae'r neges yn glir,
Gwireddir ein gobaith, fe ddaw cyn bo hir
Gweithredwn yn gyfiawn a dysgwn wrth fyw
Mor fawr yw amynedd a chariad ein Duw.
*Cytgan*
*Amynedd, doethineb a chariad yw Ef*
*A'n gobaith ni ydyw, cael dae'r fel nef*

Cawn fyw yn llawn gobaith tra'n gwrando am lais
Y rhai sy'n dioddef gan erlid a thrais,
Ac agor ein calon heb ragfarn i'w llef
Wrth fynd gyda'n gilydd hyd Fethlehem dref.
*Cytgan*

Mae'r doethion yn dilyn eu seren o hyd
A hwythau'r bugeiliaid yn aros ynghyd,
A ninnau, ar waethaf pob pryder a phone,
Yn disgwyl yn ddyfal wrth breseb yr Oen.
*Cytgan*

*Euryn Ogwen*

## AGOR Y LLYFR

"Ti ydy Sara," meddai'r eneth fach wrth ymyl y til mewn archfarchnad. Roedd hi wedi bod yn fy llygadu ers amser, a doeddwn i ddim yn deall pam ei bod hi'n meddwl mai Sara oedd f'enw i!

A dyma'r geiniog yn disgyn - roedd y ferch wedi fy ngweld yn actio Sara wrth gyflwyno hanes Abraham a Sara mewn ysgol leol fel rhan o waith Agor y Llyfr.

Beth ydy Agor y Llyfr?

Mae'n brosiect gan Gymdeithas y Beibl lle mae gwirfoddolwyr o eglwysi lleol yn dod ynghyd i gynnal gweithred o addoli ar y cyd mewn ysgolion cynradd wrth gyflwyno straeon o'r Beibl, rhoi munud i feddwl a chyfle i gymryd rhan mewn gweddi. Byddwn fel oedolion yn gwisgo fyny ac actio a bydd disgyblion hefyd yn cael bod yn rhan o'r stori o dro i dro. Mae Cymdeithas y Beibl yn darparu adnoddau, hyfforddiant a syniadau ar sut i gyflwyno straeon y Beibl i genhedlaeth newydd o blant. A does dim dwy waith fod y disgyblion yn mwynhau'r profiad, ac yn dysgu llawer …. a choeliech chi ddim yr hwyl enfawr a gawn ni wrth wneud y gwaith.

Mae grŵp Agor y Llyfr, Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd wedi ei sefydlu ers dros flwyddyn bellach ac wedi ymweld â rhai o ysgolion Cymraeg yr ardal. Yna cyrhaeddodd cyfyngiadau y Coronafeirws, ond mae'r gwaith wedi parhau, ac wedi ehangu, gan ein bod bellach yn recordio ein cyflwyniadau dros Zoom a'u hanfon i nifer fwy o ysgolion! Mae yna griw da ohonom o wahanol eglwysi yn cydweithio i gyflwyno trysorau'r Beibl i'r plant.

Cewch fwy o wybodaeth ar www.biblesociety.org.uk/cymru/agor-y-llyfr/ Ac mae angen sawl Dafydd, Sara, Pedr, angel, a thyrfa arall! Dewch i ymuno â ni - cysylltwch â'r Parchg Alun Tudur.



## Datblygu a denu doniau newydd i'r maes Newyddiaduraeth



Gyda mwy o bwyslais nag erioed ar y newyddion a'r cyfryngau cymdeithasol, mae S4C ac ITV Cymru eto eleni yn cefnogi cynllun hyfforddi newyddiadurwyr i greu defnydd ar gyfer llwyfan digidol Hansh.



Mae'r cynllun hyfforddi arloesol, sy'n bartneriaeth rhwng S4C ac ITV yn rhan o ymrwymiad S4C i gyflwyno cyfle i bobl sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector i weithio yn y maes.

Bydd y ddau newyddiadurwr dan hyfforddiant yn cael profiad o weithio ar y rhaglenni materion cyfoes mae ITV yn ei greu ar gyfer S4C, rhaglenni megis *Y Byd ar Bedwar* a *Y Byd yn ei Le*. Byddant hefyd yn dysgu creu cynnwys materion cyfoes ffurf fer ar gyfer cynulleidfa Hansh Dim Sbin ar draws y cyfryngau cymdeithasol.

Lloyd Lewis a Maia Davies yw'r ddau sydd wedi ennill eu lle ar y cynllun hyfforddi eleni a hynny o dros 90 o ymgeiswyr.

Mae Lloyd, sy'n 24 oed ac yn wreiddiol o Gwmbran yn edrych ymlaen at ddilyn ei uchelgais o ddatblygu gyrfa yn y maes. Un o'r pethau pwysig iddo yw sicrhau cynrychiolaeth deg o Gymru fodern a'i chyfoeth o ddiwylliannau.

Dywed Maia sy'n 21 oed ac yn wreiddiol o Gaerdydd bod eleni wedi bod yn agoriad llygad i bwysigrwydd newyddiaduraeth wrth geisio sicrhau fod Cymru yn ganolbwynt i'r straeon ac nid yn ôl-nodyn. Ychwanega Maia fod y pwyslais cynyddol ar newyddion digidol yn holl bwysig i gyrraedd y gynulleidfa iau.

Dechreuodd y ddau ar eu gwaith fis Tachwedd eleni.

# Cwmni'r Dysgwyr

*"Tybed sawl un fydd yn gwneud adduned i ddysgu Cymraeg yn 2021?"*

## Gwilym Dafydd





**Gair gan Sarah Duncan-Jones**

Sarah dw i. Dw i wedi byw yn Yr Eglwys Newydd ers blynyddoedd a dw i'n gweithio fel rheolwraig yr elusen fach leol, CAFf – Cymdogion a Ffrindiau. Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg ers tair blynedd, yn y dosbarth a nawr ar Zoom. Mae grwpiau CAFf yn dod â phobl leol a phobl o bob cwr o'r byd i siarad a gwrando ar brofiadau a syniadau ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o grwpiau CAFf yn defnyddio Saesneg, ond nawr mae grŵp Cymraeg gyda ni – felly dw i'n hoffi ceisio defnyddio fy Nghymraeg bob bore Mawrth gyda dysgwyr eraill a phobl sy'n siarad yn Gymraeg yn dda i wella fy Nghymraeg. Os dych chi am ymuno â'r grŵp CAFf anfonwch e-bost. Diolch yn fawr.

Fanofficer@ymail.com

**Oedfaon bore Sul Swmiaid Hapus**

Dyn ni wedi cyfarfod am 8.50 neu 9 o'r gloch pob bore Sul ers 25 Hydref. Yn ystod y cyfnod hwn mae Simona yn Slofacia, Annick, Christine, Jan, Rachel, Mike, Terry a Peter wedi darllen salm, emyn neu adnodau o'r Hen a'r Testament Newydd. Bydd Eirian yn darllen stori o Agor y Llyfr a chawn gyfle i ymateb trwy fod yn actorion gan gynnwys y tiwtoriaid Gwen a Carol sy'n ymuno'n gyson. Mae'n siwr bydd cyfle i siaradwyr Cymraeg newydd i ddarllen eu hoff garolau yn ystod ein cyfarfodydd 40 munud yn mis Rhagfyr.

**Clonc ar Zoom**

Wedi cerdded Taith Taf o'r tŷ unwaith eto y dydd o'r blaen, coffi a chacen moron flasus yn y Castell, es mewn i siop dawel Jams Hywel a lan i'r ail lawr i'r tŷ bwyta lle roedd ein clonc amser cinio dydd Llun a Gwener yn arfer cyfarfod. Mae'n teimlo fel tragwyddoldeb yn ôl bellach – yr oes cyn Covid-19!

Ers misoedd lawer ar Zoom rydym yn cyfarfod ar ddydd Llun, Mercher a Gwener rhwng 1 a 2 o'r gloch. Mae dros hanner cant yn derbyn gwahoddiad Sheridan Morgan trwy ebost a linc a Gwen Rice sy'n ein gosod mewn ystafelloedd ac yn ein symud o amgylch pob ugain munud! Dw i ddim yn galw mewn ddydd Mercher ond dyw hi ddim yn anarferol i weld ugain a mwy yno weithiau ar ddechrau a diwedd wythnos. Nes cawn ni frechlyn dw i ddim yn gweld y trefniant hwn yn dod i ben yn gyflym.

**Clonc Eglwys Dewi Sant**

Wn i ddim sawl clonc sydd ar gael ar Zoom yn ein hardal ni erbyn hyn – rhowch wybod! Un ohonynt yw clonc Eglwys Dewi Sant sydd yn cwrdd ar y trydydd bore Sadwrn o'r mis rhwng 10.30 a 12 o'r gloch gyda Siân Eleri Thomas yn arwain. Pwy oedd yno ar fore Sadwrn, 17 Tachwedd? Atebion yn y llun os bydd y wynebau yn ddigon mawr a chlir!



**Amser Jôc gyda Huw James**

Archfarchnad yw'r lleoliad. Tri chymeriad: cyfreithiwr cyfoethog o Sir Aberteifi, cyfreithiwr tlawd o Sir Aberteifi a Siôn Corn. Dyna bapur pum punt ar lawr. Pwy sy'n mynd i'w godi e? Wel, y cyfreithiwr cyfoethog wrth gwrs. Ffrwyth dychymyg yw'r ddau arall.

Ein diolch i Huw am ei jôcs ers misoedd lawer. Cyfieithiad ydyn nhw o lyfr poblogaidd Huw yn ôl yn 2010 sef *The Half-tidy book of Welsh Jokes* (£3.95 Y Lolfa). Rwy'n credu bod ei jôc mwyaf doniol ar dudalen 55. Prynwch eich copi (oes rhai dal ar gael?) i weld os ydych yn cytuno!


**Coed tân ar werth**

Bagiau coed tân ar werth - coed caled sych o safon gyda chynnwys lleithder o ddim mwy nag 20%.

**£5** y bag yn cynnwys cludiant am ddim yng Nghaerdydd.



Ffoniwch Gruff ar 07880 804 453

# Cymrodorion Y Barri

## Diwydiant Gwlân Cymru



Nos Fawrth 20 Hydref cafwyd cyfarfod Zoom hynod ddifyr yng nghwmni Ann Davies sy'n diwtor Cymraeg i 'Siaradwyr Newydd' (chwedl hithau - ymadrodd haeddiannol ac urddasol). Mae Zoom bellach yn rhan o'n bywydau ni oll, yn y tywyllwch cloëdig hwn. Noson Y Cymrodorion i'r dysgwyr sydd wedi 'Croesi'r Bont' oedd hon, ac fe wnaeth Ann yn sicr eu bod oll yn deall ei sgwrs.

Mae Ann Davies yn hannu o Drefach Felindre ar y ffin rhwng Ceredigion a Sir Gâr. Teitl ei sgwrs oedd 'Gwlân, Amaethu a Masnach'. Am genedlaethau bu teulu Ann yn ymhel â'r busnes gwlân, o'r dyddiau gwledig cynnar o nyddu ar droell bren (sy'n dal yn ei meddiant) i'r peiriannau mawr a ddyfeisiwyd yn ddiweddarach. Yn Drefach Felindre yn yr 1880 hwyr roedd 23 o felinau gwlân o fewn dwy filltir sgwâr. Soniwyd am y *Wool Rush* lle roedd pobl o bob cwr yn heidio i'r ardal i weithio yn y diwydiant gwlân. Gelwyd y pentref yn Little Huddersfield ar un adeg. Y rheswm am lwyddiant Drefach fel canolfan wlân oedd y nifer o afonydd bach a lifai trwy'r pentref i ddyfrhau'r broses o wehyddu. Tyfodd y teulu'n gyfoethog yn sgil y diwydiant, a byddent yn gwerthu eu blancedi a'u carthenni ym mhob cwr o Gymru a thu hwnt.

Erbyn 1929 roedd y gweithiau wedi crebachu a'r pentre eto'n hafan tawel gwledig. Fodd bynnag mae'n werth ymweld â'r Amgueddfa Wlân sydd yn y pentref.

Siaradodd Ann yn bwyllog a chlir, gan roi rhestr o eiriau ar y sgrîn er mwyn i bob un o'r siaradwyr newydd ddeall y sgwrs. Noson ddifyr dros ben.

## Cofio Heddychwr



Daeth criw brwdfydig o Gymrodorion y Barri ynghyd Nos Fawrth 17 Tachwedd trwy gyfrwng rhithiol. Cyflwynodd Cadeirydd y Noson, Heulwen Cooper – ei hen ffrind Delyth Curry, cyn athrawes yn bennaf yn Ysgol Sain Baruc yn y Barri. Roedd Delyth am drafod hanes ei thad, Vincent Pate (bu farw ym 1981), athro a darlithydd mewn ieithoedd modern, un o arloeswyr y WMCA yng Nghymru a gŵr a fu'n wrthwynebwr cydwybodol adeg yr Ail Ryfel Byd. Roedd Vincent Pate yn berthynas i Iorweth Peate, ond newidiwyd sillafiad yr enw trwy gamgymeriad wrth gofrestru.

Fel gŵr ifanc roedd Vincent Pate yn hoff iawn o deithio gwledydd Ewrop ac yn ystod haf 1939 wrth deithio trwy'r Almaen gyda'i ffrind agos yr Almaenwr Ernst Weinert, cafodd Vincent neges i ddychwelyd i Gymru ar fyrder. Ddyddiau yn ddiweddarach cyhoeddwyd y rhyfel. Ni chlywodd Vincent air oddi wrth Ernst wedi hynny, a darganfyddodd ymhen amser fod ei ffrind wedi ei golli yn y rhyfel ym 1942.

Roedd Vincent yn Heddychwr brwd, ac o ganlyniad penderfynodd fod yn wrthwynebwr cydwybodol yn ystod y rhyfel, a ddaeth a'i broblemau ei hun yn ei sgîl. Erbyn heddiw mae carreg goffa yn Sgwâr Tavistock yn Llundain yn cofnodi dewrder y gwrthwynebwyr cydwybodol yn ystod y Rhyfel.

Cawsom weld copïau o lythyron o'r Almaen a Llydaw, medalau, gwobrau, a dangosodd Delyth un o drysorau ei thad i ni, sef Beibl unigryw yn y Lladin gyda chlawr o groen gafr, dros 200 oed, a brynodd mewn siop lyfrau ail-law. Mae'n debyg mai dim ond un copi arall o'r Beibl hwn sydd ar gael ym Mhrydain, ac mae hwnnw yn Llyfrgell y Bodleian yn Rhydychen.

Diolchwyd yn gynnes iawn i Delyth, a chyhoeddwyd fod ein cyfarfod nesaf ar 15 Rhagfyr (eto yn rhithiol) sef noson gerddorol Nadoligaidd dan ofal Mared Furnham.

**NADOLIG LLAWEN I DDARLLENWYR Y DINESYDD**
**ODDI WRTH GYMRODORION Y BARRI**

## Rita Milton Jenkins

Ar drothwy ei phen-blwydd yn 90 oed ar 10 Tachwedd bu farw Rita Milton Jenkins. Ymgartrefodd ym Mharc y Rhath pan sefydlwyd ei gŵr, y Parchg Milton Jenkins, yn weinidog ar eglwys Tonyfelin, Caerffili yn 1995.

Ystyriai ei hun fel merch o Fôn ac ymfalchïai yn niwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg. Ymrodd yn llawn i'w gwaith fel athrawes ddyddiol ac i gefnogi ei gŵr fel gweinidog yng Nglyn-nedd, Maesteg, Aberteifi a Chaerffili.

Ysgrifennodd nifer o emynau ar gyfer amryw o achlysuron a'r rhain i gyd yn arddangos nid yn unig ei dawn barddoni ond hefyd ei ffydd yn Nuw.

Cydymdeimlwn yn ddifuant gyda Milton, a'r plant, Sybil, Eira ac Iestyn a'u teuluoedd oll.

Dyma englyn gan y Dr John Lloyd, Caerffili, er cof amdani.

Iddi yn gefn oedd Cefni - â'i doniau
hyd einioes bu wrthi'n
nyddu mewn cân a gweddi
geiriau'r Iôr a garai hi.

## Côr Canna – clonc, coginio, cerdd dant ! Cynhaliaeth dros gyfnod y Covid

Dyna siom oedd clywed na fyddem yn medru cwrdd i ymarfer am wythnosau lawer oherwydd oblygiadau lledaenu'r feirws. Y neges gan Delyth oedd "Cadwch i ganu a chadwch yn iach a diogel." Mewn dim trefnwyd grŵp 'Whats App' côr a oedd yn wych i gadw pawb mewn cysylltiad. Drwy'r cyfrwng dangoswyd lluniau doniol, fideos o nifer o artistiaid talentog côr- ona ac wrth gwrs sylwadau bachog!

Ar ôl rhai wythnosau daeth neges testun gan Nia Land, ein harbenigwraig technegol, yn ein hysbysu ei bod yn trefnu cyfarfod 'zoom'."Beth ar wyneb y ddaear ydy hwnnw?!" oedd ymateb cyntaf y rhan fwya ohonom a her ar y naw oedd meistroli'r dechneg. Ond cyn pen dim cawsom gyfle i gael clonc, rhannu profiadau positif, cyffrous a thrist, adrodd straeon difyr ac yn fwy na dim chwerthin, yn enwedig pan ymddangosodd ambell gi yn y cefndir! Yna datblygodd ein nosweithiau anffurfiol i fod yn noson gwis wythnosol a braf oedd gallu cymdeithasu, ymlacio a chael hwyl efo ffrindiau.

Rydym yn lwcus i gael cogyddes enwog yn aelod o'r côr. Cynigiodd Nerys Howells sesiynau coginio ar Zoom! Diolch i'r drefn bod ganddi amynedd Job. Cawsom dipyn o hwyl wrth dreialu ryseitiau blasus o lyfr coginio newydd Nerys sy'n hyrwyddo bwydydd o Gymru. Achosodd llwyddiant y sesiynau i Delyth boeni y byddai sesiynau coginio Canna yn fwy poblogaidd na'r canu!

Roedden ni fel aelodau'r côr wedi gwerthfawrogi perfformiadau gwefreiddiol a safonol rhith-gorau ar Côr -ona, a'n her nesaf ni oedd perfformio a recordio 'O Nefol Addfwyn Oen' fel unigolion ac yna ei drosglwyddo i arbenigwr sain i gyd-asio'r lleisiau i greu sain swynol gobeithio! Gan ein bod wedi arfer gwrando ar ein gilydd roedd y broses o berfformio fel unigolion yn anghyfarwydd iawn. Ond dilyn y cyfarwyddiadau i yrru'r recordiad i *dropbox* a dewis beth roeddem am wisgo oedd y straen mwyaf!! Rhyddhad oedd cael cadarnhad fod y recordiad gorffenedig yn plesio Delyth. Profiad newydd ac emosiynol i sawl aelod a whatsapp y côr yn pingio'n brysur gyda sylwadau fel –

"Mor falch ein bod ni gyd wedi neud hwn gyda'n gilydd, yn bendant werth y straen!"

"Diolch i ti am ein hannog i ddysgu sgiliau newydd, er wedi heneiddio yn y broses!"

"Roedd rhaid i mi ddileu y seithfed têc O Nefol Addfwyn Oen gan fod fy nhad wedi ymuno yn y canu o'r 'stafell arall!"

Yn sgil llwyddiant y rhith-gôr daeth yr hyder i wynebu prosiectau eraill megis rhith-gôr Eisteddfod Genedlaethol Amgen – 'Pont y glaw' a 'Cerddwn drwy'r tywyllwch' - Richard Vaughan. Rydym ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Tregaron ,ac yn wynebu'r her fwyaf hyd yn hyn - dysgu cerdd-dant i gyfeiliant Ave Verum ar 'Zoom'! Rydym hefyd yn dysgu carolau ar gyfer y Nadolig, ac yn edrych 'mlaen yn eiddgar at ymuno â 33 o gorau eraill i gyflwyno carol 'Ti Fan Hyn'. Erbyn hyn mae aelodau côr Canna yn hen law ar recordio. Heb os nac oni bai wrth feistroli'r heriau newydd sydd wedi ein hwynebu fel côr rydym yn sicr wedi closio'r gymuned sbesial rydym yn rhan ohoni ac yn diolch i Del am ein harwain mor siriol ag erioed drwy'r cyfnod mwyaf heriol eto.

Mae merched Canna yn sicr yn ysu am weld haul ar fryn a mynegodd Aled Gwyn hyn i'r dim yn yr englyn a gyfansoddodd i ni i'w rhoi ar ddechrau ein cyflwyniad 'O Nefol Addfwyn Oen'.

*Bethan Hayes, Siân Young a Ffion Harries*

**Yfory wedi'r feirws**

Er y boen a'r trybeini - a hir wae
y braw a'r caledi
wedi'r nos dyro i ni
adennill gwawr daioni.

*Aled Gwyn*



# Gwylio'r Geiniog

*Byddwch yn wyliadwrus o unrhyw sgamiau.*

## Huw Aled Accountants



1. Mae'r cynllun ffyrlo wedi cael ei ymestyn tan fis Mawrth 2021. Bydd y cynllun yn cefnogi 80% o gyflog gweithwyr, hyd at £2,500 y mis.

https://www.gov.uk/government/news/government-extends-furlough-to-march-and-increases-self-employed-support

2. Agorodd y ceisiadau ar gyfer y trydydd grant o dan y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig ar **30 Tachwedd 2020**. Rhoddir grant o 80% o gyfartaledd elw, hyd at £7,500 ar gyfer cyfnod o dri mis.
   Mae amodau ychwanegol wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer y grant yma, gan gynnwys gofyniad i'r ymgeisydd gadarnhau y bydd eu helw yn is eleni o achos Covid-19.

https://www.gov.uk/guidance/claim-a-grant-through-the-coronavirus-covid-19-self-employment-income-support-scheme

3. Bydd gwyliau talu morgais o hyd at 6 mis yn parhau i fod ar gael o achos Covid-19, os byddwch chi'n cysylltu â'ch benthyciwr. Cofiwch y bydd llog yn parhau i gronni ar y symiau sy'n ddyledus.
4. Sgamiau newydd i fod yn ymwybodol ohonynt:

   a) Gan ein bod yn agosáu at ddyddiad cau cyflwyno ffurflenni treth 2019-2020, mae sgamwyr sy'n honni eu bod o'r Swyddfa Dreth wedi dechrau ffonio pobl yn bygwth y byddwch yn cael eich arestio os na fyddwch yn rhoi eich manylion banc.

   b) Byddwch yn ofalus o wasanaethau sy'n cynnig treial am ddim ond sy'n dal i ofyn am eich manylion banc. Rydym wedi gweld sawl enghraifft yn ddiweddar o unigolion yn tanysgrifio am wasanaeth am ddim ond yn anghofio dad-danysgrifio ac wedi talu £20 y mis dros gyfnod o flwyddyn cyn eu bod yn sylweddoli hyn. Gwiriwch eich datganiadau banc yn ofalus.

***Cwestiynau Huw ac Aled:*** Mae fy ngŵr wedi bod yn cadw derbynebau ac anfonebau ein cyfrifon dros yr ugain mlynedd diwethaf. Beth yw rheolau'r Swyddfa Dreth o ran cadw cofnodion? Oes angen i ni gadw'r cofnodion i gyd?

Mae'r Swyddfa Dreth yn gofyn i chi gadw'ch cofnodion am o leiaf 5 mlynedd ar ôl y dyddiad cau o 31 Ionawr ar gyfer y flwyddyn dreth perthnasol neu, os yw hyn yn haws i gofio, i gadw cofnodion am **7 mlynedd** o ddechrau'r flwyddyn dreth dan sylw.

Ein cyngor ni, felly, yw cadw'r cofnodion o 6 Ebrill 2014 ymlaen a gwaredu'r gweddill.

*Am fwy o fanylion, cysylltwch gyda ni trwy: www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524.*

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Ychydig feddyliodd aelodau'r Aelwyd yn ôl ym mis Mawrth sut byddai bywyd yn newid oherwydd effaith y Cofid 19. Tristwch oedd gorfod amddifadu pawb o gyfarfodydd sydd bellach yn rhan bwysig o'n calendr. Hyfryd oedd deall fod y swyddogion a'r aelodau yn cadw mewn cysylltiad agos a'i gilydd ar y ffôn. Bu'n fendith clywed llais cyfarwydd, a chael sgwrs ddiddorol. Bu hyn yn bwysig, yn enwedig i'r rhai oedd yn unig ac wedi eu hynysu.

Tristwch mawr yn ystod y cyfnod oedd colli dwy aelod, Eiluned Davies, Ystum Tâf, a fu yn ffyddlon i bob agwedd o'r Aelwyd ers blynyddoedd, a hefyd Anneira Walters, Llandaf, a ymunodd yn ddiweddarach gyda brwyfrydedd. Roedd cael cysylltiad â'r aelodau yn bwysig i'r ddwy. Cydymdeimlir ag Olwen Williams, chwaer Eiluned, a theulu Anneira.

Penderfynwyd, rhai wythnosau yn ôl, ddefnyddio cyfrwng Zoom i gyfarfod, gan gychwyn ar 13 Tachwedd. Roedd y cyfarfod cyntaf ar ddydd Gwener, 27 Tachwedd am 2 o'r gloch, a'r siaradwraig oedd Beti Davies Heol y Gadeirlan. Hefyd, cynhelir gwasanaeth dathlu'r Nadolig ar ddydd Gwener, 11 Rhagfyr. Diolch i'r Parchedig Allan Pickard am ein cyflwyno i'r cyfrwng hwn. I ymuno â Zoom, cysylltwch ag Allan ar e-bost <aelwydhamdden@gmail.com> i gael y linc.

Hefyd, croeso i unryw un sydd am ymuno â'r Aelwyd i'r dyfodol wneud hynny drwy'r Ysgrifennydd.

Cofion annwyl at bawb – cadwch yn ddiogel - "Cawn eto gwrdd" yn fuan, gobeithio!

**Menna Brown** (Ysgrifennydd) (029 20254679)

**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

## Rhif: 209






### Ar Draws

1. …..C, Ch, D, Dd (ail ran)….. dyna sŵn drwg (10)
7. Dwyn sarhad ar frain gwyllt (5)
8 + 17. '----- yw cofio er cymaint a -----.
Fod golud y nefoedd mor fawr ag
erioed'(ER) (7+4)
10. Gwaith aelod o gôr (3'1,1,3)
11. Gwasgu'r efrydydd i'r drydedd wobr (4)
13. Dull Dai efallai o wisgo (6)
15. Coginio wystrys diddiwedd fel pranc (6)
17. *gweler 8*
18. Gwahardd smygu yno (8)
21. 'I fachgennyn Mair
Y Tragwyddol Air
Yn y gwellt ----- -----' (WE ) (1'1,5)
22. Chwedl ffrio'r rösti (5)
23. Sut i ddathlu'r Nadolig (2,8)

### I Lawr

1. 'Brawd annwyl sy'n ein -----
Mewn oriau cyfyng caeth' (DW) (5)
2. Un a sawl tafod (6,2)
3. Ffordd sy'n dywyll fel aur ar ôl y dilyw (6)
4. Pren mesur i rai swil ar yn ail (4)
5. 7 yn troi'n ddiflas (7)
6. 'Awn i Fethlem bawb dan ganu,
Neidio, dawnsio a difyrru'! (RhP) ( 5,5)
9. 'Wele'n gwawrio ----- ----- -----
Geni Seilo, gorau swydd' (Anad) (3,1'1, 5)
12. 'Bywyd ddwg, a golau ddydd,
Iechyd yn ei ----- -----' (ER) )5,3)
14. Golau'r lleuad sydd heb wres ar ddechrau'r gaeaf
yn y Llan (7)
16. Ffeindio rhywbeth dieithr mewn llestr o Nantgarw
(6)
19. Sŵn tebyg ar ddechrau unawd nodweddiadol o
donau Liszt (5)
20. 'Mae ----- y coed yn Ystrad Fflur
Yn murmur yn yr awel' (TGJ) (4)

**Enillydd Croesair Rhif 207**
**Robin Bateman, Yr Eglwys Newydd**

**Atebion Croesair Rhif 207**

**Ar Draws:**
1. Ni bydd y gog na'i 7. Crëwr 8. Robin 9. Fen
10. Colomendy 11. Adlamu 12. Banana 15. Amherffaith
17 Nwy 18. Ennyd 19. Oesol 21. Newyddiadurol

**I Lawr:** 1. Nhref Nasareth 2. Ddoe 3. Gwroli
4. Gorymdaith 5. Ar ben 6. Ennyd ar yn ail 7. Canol
10. Cymeradwy 13. Annel 14. Daioni 16. Hen le 20. Sad

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Chwefror, 2020
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

y felin

# Siop y Felin



Bu Llio Maddocks yn Siop y Felin, yr Eglwys Newydd yn ddiweddar yn llofnodi copïau o'i nofel gyntaf *Twll Bach yn y Niwl* a gyhoeddwyd gan y Lolfa.

Ailagorwyd Siop y Felin ym mis Awst dan berchnogaeth newydd fel siop lyfrau, cardiau a blodau. Er y clo, maent yn gallu danfon llyfrau a chardiau drwy'r post.

Mae blodau ffres ar gael ac mae'r siop yn darparu gwasanaeth blodau ar gyfer pob achlysur.

@siopyfelin www.siopyfelin.co.uk

# Ryseitiau Merch y Ddinas

*"offrwm o gariad yw'r wledd draddodiadol"*



## Lowri Haf Cooke

Chwa chwerwfelys tanjerîn ym mis Tachwedd - dyna flas cynta'r ŵyl i mi. Fel arfer, byddai fy chwaer ymhell ar y blaen ac wedi sglaffio brechdan Dolig 'Pret' ym mis Hydref. Seren wib o brofiad sy'n diflannu mewn chwinciad, yn llawn llugaeron ac atgofion rhwng dwy dafell. Byddai Anti Enid yn barod gyda'i mins peis serennog cyn agor drws cyntaf y calendr Adfent siocled. Caent eu gweini â llestri tseina, ar liain claerwyn Anti Ada, a chanmoliaeth i rysáit Anti Nesta. Wrth i'r pestri brau menynog doddi ar dafod, diolchaf am deulu dedwydd.

Yn y man, dechreuaf bobi mins peis Nigella - croen clementin yw fy ychwanegiad innau. Clywaf leisiau hiraethus Dean Martin a Sinatra a gwylio'r siwgwr eisin yn chwyrlïo'n storom o blu eiria. Tywalltaf lymaid o donic a'r jin eirin tagu y llenwais mewn potel 'nôl ym mis Medi. Blas ffisig i rai ond neithdar i mi yw persawr y peli bach porffor. A bydd fy ffiol yn llawn pan wnaf *eggnog* un pnawn – pleser unwaith-y-flwyddyn yn unig. Seren y parti acw yw'r hyfrydbeth hwn yng nghwmni cyfeillion o flaen y goeden. Cyfunaf hufen, melynwy, Baileys a chwisgi Bourbon cyn creu corwynt o wynwy a siwgwr mân cyn iddo droi'n fôr o falws melys. Byddai'r tonnau *meringue* fel arwyneb cacen Dolig mam, neu dirlun eira Eryri gan Kyffin Williams. Yn goron ar y cyfan, cynhesrwydd nytmeg wedi'i gratio, a sain tincial chwerthin ffrindiau yn y cefndir.

Ganol Rhagfyr, estynnaf am bad papur Basildon Bond i ddrafftio rhestr siopa bwyd yr ŵyl. Mae'n tyfu'n golofnau niferus o ddanteithion nostalgaidd, a fiw i mi anghofio'r un cynhwysyn. Salad crîm a phicls yw sêr y te 'Dolig yn ôl Lleucu, a hi hefyd yw brenhines y treiffl a'r grefi. Bûche de Noël - 'boncyff' o hufen a siocled – yw pwdin 'Dolig delfrydol Catrin Medi. Wedi'r coginio ers ben bore, a miri'r holl wledda, paned o de ac After Eights sydd at fy nant innau. Bydd hefyd ras flynyddol– yn bererindodau o siopau cornel – i ganfod blwch o Black Magic i 'nhad. Cadw pawb yn hapus yw'r delfryd bob tro, gyda bwyd yn falm naturiol rhwng y cecru - 'gormod o "Cookes" yn y gegin' – sy'n borth i Nadoligau'r gorffennol. Saif cadair wag Mam yn gofeb wrth y bwrdd, ac yn bont tuag at wleddoedd y dyfodol.

Ond tybed sut beth fydd Nadolig mewn pandemig? 'Mond gofod i un 'Cooke' fydd yn y gegin eleni, a beth os golla i'r gallu i arogli a blasu? Beth yw Plan B Siôn Corn parthed hosanau Cadi a Greta, yn llawn cnau, botymau siocled a satswmas? Fydd yna ddim coctels o flaen y goeden, na rhannu bagiad o gnau castan, oni bai y caf wneud hynny mewn swigen. A gawn ni wledda yn sied Dad neu gyd-fwyta ar WhatsApp, gan dynnu cracyrs a rhannu'r jôcs sâl â'n hunan?

Tybed oes cyfle annisgwyl am wledd go wahanol – yn seibiant o'r loddest arferol? Dim rhedeg a rasio, gorfwyta, gorwario; un diwrnod yn anrheg i'r enaid. Beth am ddiwrnod yn y gwely, neu fynd am dro cyn gwireddu 'swper olaf' dros ben llestri fy mreuddwydion? Neu beth am frecwast i ginio a threiffl i swper a thwrci am saith y bore? Does unman fel adre ond – am gwta 24 awr – beth am chwarae mig â'r arferion traddodiadol? Daw eto haul ar fryn, felly'n hytrach na 'mynd mynd mynd' beth am siocled poeth dan seren Bethlehem eleni? Ystyriwn rannu'r hud blynyddol mewn ffyrdd pur wahanol – wedi'r cyfan, offrwm o gariad yw'r wledd draddodiadol. Beth bynnag a ddaw, bydd popeth yn iawn – o bellter, ond gyda'n gilydd.

***Llyfr Bach Nadolig*, Golygwyd gan Elinor Wyn Reynolds (Cyhoeddiadau Barddas) £9.95**






## Cwis Nadolig Côr Caerdydd 2020 - Huw Roberts

Atebion tud. 15

1. Beth oedd enw cyntaf Scrooge yn *A Christmas Carol*?
2. Beth yw geiriau nesaf *Stille Nacht*?
3. Pwy ysgrifennodd 'Ar noson fel heno'?
4. Pa actor chwaraeodd Siôn Corn yn *Miracle on 34th Street* (Yr hen fersiwn du a gwyn)? Mae ganddo frawd enwog.
5. I ble'r aeth y baban Iesu, Mair a Joseff ar ôl gadael Bethlehem?
6. Beth oedd enw'r crwt yn *Home Alone* a chwaraewyd gan Macaulay Caulkin?
7. Pwy oedd yn breuddwydio am 'Nadolig Gwyn'?
8. Ym mha lyfr *"It is always winter, but never Christmas"?*
9. Cyn i Coca Cola wisgo Siôn Corn yn goch yn 1931 pa liw oedd gwisg traddodiadol Sion Corn?
10. Pa rodd sydd yn draddodiadol gyda'r *Fifth Day of Christmas*?